

Dogfen ir Cyhoedd



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Mr Richard Parry Jones, BA, MA.
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| | |
|---|--|
| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE |
| DYDD LLUN, 9 RHAGFYR 2013 am 2.00 o'r gloch | MONDAY, 9 DECEMBER 2013 AT 2.00 PM |
| YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGFNI | COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGFNI |
| Swyddog Pwyllgor | Ann Holmes 01248 752518 Committee Officer |

AELODAU / MEMBERS

Cynghorwyr / Councillors:-

ANNIBYNNOL GWREIDDIOL/ORIGINAL INDEPENDENT

Jeff Evans, Jim Evans, G.O.Jones (Is-Gadeirydd/Vice-Chair), Victor Hughes

LLAFUR/LABOUR

PLAID CYMRU/THE PARTY OF WALES

R.Meirion Jones (Cadeirydd/Chair), Lewis Davies, Ann Griffith a Llinos Medi Huws

HEB YMUNO/UNAFFILIATED

Raymond Jones a P S Rogers

AELODAU CYFETHOLEDIG (GYDA PHLEIDLAIS PAN YN TRAFOD MATERION YN YMWNEUD AG ADDYSG) / CO-OPTED MEMBERS (WITH A RIGHT TO VOTE WHEN DEALING WITH EDUCATIONAL MATTERS

Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig / The Roman Catholic Church) a
Parch./Rev. Robert Townsend (Yr Eglwys yng Nghymru / The Church in Wales)

R H A G L E N

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 **DIWEDDARIAD Y CADEIRYDD**

Derbyn diweddariad y Cadeirydd ar ddatblygiadau ers y cyfarfod blaenorol gyda chyfeiriad penodol at y canlynol –

- Ymateb Cyngor Sir Ynys Môn – Gorchymyn Person Dynodedig
- Gwaith Aelodau'r Pwyllgor yn ymwneud â'r Rhaglen Drawsnewid a'r Byrddau Prosiect

3 **COFNODION CYFARFOD 28 HYDREF, 2013** (Tudalennau 1 - 10)

Cyflwyno cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol –

- 28 Hydref, 2013
- 15 Tachwedd, 2013 (arbennig)

4 **MATERION ARIANNOL - ADRODDIAD MONITRO'R GYLLIDEB GYFALAF 2013/14** (Tudalennau 11 - 20)

Cyflwyno adroddiad monitro'r Gyllideb Gyfalaf am Chwarter 2 (*Adroddiad i Bwyllgor Gwaith 2ail Rhagfyr*)

5 **MATERION ARIANNOL - ADRODDIAD MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW 2013/14** (Tudalennau 21 - 28)

Cyflwyno adroddiad monitro'r Gyllideb Refeniw am Chwarter 2 (*Adroddiad i Bwyllgor Gwaith 2ail Rhagfyr*)

6 **STRATEGAETH FEICIO** (Tudalennau 29 - 72)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Amgylchedd a Thechnegol ynglyn â'r uchod.

7 **RHAGLEN WAITH** (Tudalennau 73 - 92)

Derbyn diweddariad ar lafar gan y Rheolwr Sgriwtini. (*Copi o'r Rhaglen Waith wreiddiol ynghlwm*)

PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Hydref, 2013

- PRESENNOL:** Y Cynghorydd R. Meirion Jones (Cadeirydd)
Y Cynghorydd G.O. Jones (Is-Gadeirydd)
- Y Cynghorwyr Jeff Evans, Jim Evans, Ann Griffith, Victor Hughes, Llinos Medi Huws, Raymond Jones, Peter Rogers.
- WRTH LAW:** Dirprwy Brif Weithredwr
Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151
Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymuned
Cyfarwyddwr Corfforaethol Dysgu Gydol Oes
Pennaeth Gwasanaeth (Polisi)
Pennaeth Gwasanaeth (Tai)
Pennaeth Gwasanaeth (Gwasanaethau Oedolion)
Rheolwr Rhaglen a Chynllunio Busnes (GM) (ar gyfer eitemau 8 & 9)
Swyddog Gofal y Cwsmer (BJ) (ar gyfer eitem 4)
Swyddog Sgriwtini (GBH)
Swyddog Pwyllgor (ATH)
- YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Lewis Davies, Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Catholig), Y Cynghorydd H. Eifion Jones (Deilydd Portffolio Cyllid)
- HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Ieuan Williams (Arweinydd a Deilydd Portffolio Addysg), Y Cynghorydd Kenneth Hughes (Deilydd Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol), Mr Gareth Williams (Pennaeth Gwasanaeth - ar gyfer eitem 12), Mrs Eirian Wynne (Prif Swyddog Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr - ar gyfer eitem 11), Mr Brian Jones (Cydllynydd Strategaeth Pobl Hŷn - ar gyfer eitem 11), Mrs Iola Richards (Rheolwr Gwasanaeth, Pobl Hŷn ac Anabledau Corfforol - ar gyfer eitem 8.2), Mrs Barbara Williams (Rheolwr Gwasanaeth, Iechyd Meddwl ac Anabledau Dysgu - ar gyfer eitem 8.2), Mrs Sandra Thomas (Swyddog Prosiectau - ar gyfer eitem 8.2)

1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

2 COFNODION

Cyflwynwyd a chadarnhawyd fel rhai cywir, gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 29 Gorffennaf, 2013.

Materion yn Codi – Gan gyfeirio at y ddau fater o dan eitem 9, dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi rhoi sicrwydd y byddai'r eitemau hyn oedd wedi eu cyflwyno i'r cyfarfod diwethaf er gwybodaeth yn unig, ac yn arbennig Adroddiad Monitro Blynyddol 2012/13 i'r Comisiynydd Iaith Gymraeg, yn derbyn sylw llawn y flwyddyn nesaf ar yr amod fod y drafft ar gael mewn da bryd.

3 DIWEDDARIAD Y CADEIRYDD AC ATBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR SGRIWTINI

Eglurodd y Cadeirydd - lle'r oedd cynrychiolwyr Sgriwtini wedi eu gwahodd i wasanaethu ar amrywiol banelau a grwpiau yn y Cyngor, y disgwyliad a'r dymuniad oedd eu bod, lle bo hynny'n

briodol ac yn berthnasol, yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol. Yna rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad i'r Aelodau ar y sefyllfa ynglŷn â'r canlynol -

- Y Panel Canlyniad Sgrwtini ar Gostau Gwresogi mewn gofal preswyl – cadarnhaodd y Cadeirydd bod cyfarfod cychwynnol a chynhyrchiol wedi ei gynnal gyda'r Rheolwr Gwasanaethau Technegol Tai. Mae'r Panel wedi penderfynu gwneud gwaith pellach ar y mater hwn a bydd yn adrodd ar gynnydd i'r Pwyllgor yn y flwyddyn newydd.
- Panel Rhiant Corfforaethol - cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Gorffennaf er gwybodaeth i'r Aelodau.
- Grŵp Tasg Iaith Gymraeg - dywedodd y Cadeirydd nad oedd wedi gallu bod yn bresennol mewn cyfarfod diweddar o'r Grŵp Tasg a hynny oherwydd ymrwymiadau eraill ond roedd wedi ymrwmo i fynychu'r cyfarfod nesaf.
- Gweithgor Adolygu Polisi Gosod Tai - dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau bod y gynrychiolaeth Sgrwtini ar y Grŵp bellach wedi ei gadarnhau.
- Byrddau Prosiect a Byrddau Rhaglen Trawsnewid - tra'n cydnabod mai cyfarfodydd mewnol yw'r rhain, dywedodd y Cadeirydd ei fod yn awyddus i'r Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol dderbyn atborth cyffredinol ar gynnydd a negeseuon allweddol ar weithgareddau trawsnewid.

CAMAU GWEITHREDU: Y Cadeirydd i gysylltu gyda'r Rheolwr Sgrwtini i benderfynu ar ffurf ac amseriad yr atborth i'r Pwyllgor gan gynrychiolwyr Sgrwtini ar y Grwpiau a'r Paneli a grybwyllwyd uchod.

4 LLYTHYR BLYNYDDOL YR OMBWDSMON 2012/13 I GYNGOR SIR YNYS MÔN

Cyflwynwyd er ystyriaeth y Pwyllgor adroddiad gan y Swyddog Gofal Cwsmer yn rhoi gwybodaeth ar gwynion i'r Ombwdsmon yn ystod 2012/13 a hefyd wybodaeth gymharol o 2011/12. Roedd yr adroddiad hefyd yn ymgorffori Llythyr Blyneddol 2012/13 yr Ombwdsmon, croestoriad ystadegol o ganlyniadau yn ôl Awdurdod Lleol o ran cwynion Côd Ymddygiad a gwybodaeth a gafwyd o Lythyrau Blyneddol 2010/11 a 2011/12 yn cynnwys gwybodaeth gymharol am bob un o'r 22 Awdurdod Lleol.

Rhoddodd y Swyddog Gofal Cwsmer grynoded i'r Pwyllgor o'r prif negeseuon yn yr adroddiad gyda chyfeiriad arbennig at berfformiad Cyngor Sir Ynys Môn.

Codwyd y materion canlynol gan yr Aelodau :

- Pryder ynglŷn â'r cyfnod amser o ran ymateb i geisiadau am wybodaeth gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus gyda 28% o'r ymatebion wedi cymryd mwy na 6 wythnos er ei fod yn cael ei gydnabod bod hyn yn berthnasol i'r holl gyrfff cyhoeddus yng Nghymru ac nid i Gyngor Sir Ynys Môn yn unig. Roedd yr Aelodau'n credu bod gwella ymatebolrwydd yr Awdurdod yn gyffredinol yn faes sydd angen sylw. Nododd y Dirprwy Brif Weithredwr bod hwn yn un o'r pethau sy'n cael sylw'r Bwrdd Prosiect Rhagoriaeth Gwasanaeth a chadarnhaodd y Swyddog Gofal Cwsmer hefyd bod y data i'w weld fel pe bai'n dangos bod amseroedd ymateb Cyngor Sir Ynys Môn yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd o 4-5 wythnos.
- Y nifer o gwynion yn ymwneud â chynllunio a Rheoli Adeiladu a sut y mae hyn yn cymharu ag awdurdodau eraill yng Nghymru
- Y polisi a'r agwedd o safbwynt delio â chwynion a gwahaniaethu rhwng achwynwyr blinderus.

Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys.

DIM CAMAU GWEITHREDU PELLACH YN CODI.

5 ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB GYFALAF CHWARTER 1 2013/14

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor Adroddiad Monitro Cyllideb Cyfalaf Chwarter 1 2013/14 fel oedd wedi ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ar 9 Medi.

Un mater a godwyd i'w drafod gan Aelodau'r Pwyllgor oedd mater rheoli'r stad mân-ddaliadau a'r hyn oedd yn cael ei weld fel dychweliad annigonol i'r Awdurdod ar yr ased hon. Pwysleisiwyd bod angen gwneud i'r portffolio mân-ddaliadau weithio i'r Awdurdod o ystyried y rhagolygon ariannol heriol sydd gerbron.

Penderfynwyd nodi sefyllfa'r Gyllideb Gyfalaf ar ddiwedd Chwarter 1.

DIM CAMAU GWEITHREDU YN CODI.

6 ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB REFENIW CHWARTER 1 2013/14

Cyflwynwyd i ystyriaeth y Pwyllgor, Adroddiad Monitro Cyllideb Refeniw Chwarter 1 2013/14 fel y cafodd ei gyflwyno i gyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith ar 9 Medi.

Tynnodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) sylw'r Aelodau at y ffaith bod llawer o waith wedi ei wneud ar y gyllideb ers rhyddhau'r adroddiad a hynny i fynd i'r afael â'r sefyllfa o ddiffyg oedd yn cael ei ragweld ar ddiwedd Chwarter 1 a bod y diffyg hwnnw wedi lleihau o ganlyniad. Fe wnaeth y Swyddog, fodd bynnag, amlygu'r angen i fonitro'r sefyllfa o safbwynt gorwariant tebygol o ran budd-daliadau yn dilyn newidiadau i'r system les (taliadau tai dewisol a threth gyngor).

Eglurodd y Cyfarwyddwr Cymuned i'r Aelodau y camau oedd wedi eu cymryd ac a oedd yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â gorwariant £1.295m ar ofal cymdeithasol fel yr adroddwyd ar ddiwedd Chwarter 1 gyda chyfeiriad penodol at weithio ar y cyd rhwng y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Adran Gyllid er mwyn egluro systemau gwybodaeth/ariannol. Roedd gwaith oedd wedi ei wneud yn y chwarter mwyaf diweddar wedi arwain at newid yn y proffil risgiau a'r proffil ariannol oedd yn cael ei adrodd yn Chwarter 2. Er bod rhaid parhau i fod yn wylidwrus ynglŷn â'r sefyllfa ariannol, roedd lefel y pryder yn Chwarter 2 wedi gostwng o'r hyn a welwyd yn Chwarter 1. Cadarnhaodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) bod y ffigyrau wedi gwella'n arw er ei bod am bwysleisio bod angen sgrwtineiddio'r data ymhellach.

Aeth y Cyfarwyddwr Cymuned ymlaen wedyn i roi diweddariad i'r Pwyllgor yn llafar ar gynnydd ar y rhaglen o drawsnewid gwasanaethau gofal preswyl i oedolion hŷn yn dilyn ymgynghori gyda phreswylwyr yn unol â chais y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 29 Gorffennaf. Cyfeiriodd at yr angen i benderfynu ar y blaenoriaethau yn y rhaglen a hefyd y dyheadau yn nhermau yr hyn y mae'r gwasanaeth yn dymuno ei ddarparu o ran gofal a llety, ac yn benodol ddatblygu tai gofal ychwanegol. Mae gwaith hefyd wedi bod yn mynd ymlaen ar baratoi "Dogfen Bwriadau Gwasanaeth". Bydd hyn yn cael ei drafod ymhellach gyda'r Aelodau. Nododd y Swyddog hefyd y sefyllfa yng Nghaergybi o safbwynt datblygu opsiynau gofal cymdeithasol a dewisiadau, statws Cartref Preswyl Garreglwyd a natur bresennol y ddarpariaeth yn y cyfleuster a'r syniadau sydd ar hyn o bryd yn llywio'r datblygiadau a'r bwriadau.

Yn dilyn ystyried y wybodaeth a gyflwynwyd, roedd yr Aelodau am amlygu'r canlynol fel pwyntiau i'w trafod -

- Y cyfnod amser ar gyfer darparu'r Rhaglen Trawsnewid Gofal Cymdeithasol i Oedolion yn benodol mewn perthynas â'r cerrig milltir allweddol o ran y penderfyniadau sydd i'w gwneud.
- Yr incwm oedd yn cael ei golli i'r Awdurdod yn y cyfamser oherwydd gwelyau gwag.
- Yr angen i ymgysylltu gydag Aelodau etholedig yng Nghaergybi o safbwynt rhoi gwybodaeth iddynt am ddatblygiadau sydd yn digwydd yn yr ardal.

Penderfynwyd nodi sefyllfa'r Gyllideb Refeniw ar ddiwedd Chwarter 1.

CAMAU GWEITHREDU'N CODI: Y Cyfarwyddwr Cymuned i drefnu sesiwn briffio gydag Aelodau etholedig Caergybi yng nghyswllt datblygiadau gyda'r Rhaglen Trawsnewid Gofal Cymdeithasol yn yr ardal.

7 CODI AM WASANAETHAU I DENANTIAID A PHRYDLESWYR

Cyflwynwyd er ystyriaeth y Pwyllgor, adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth (Tai) yn amlinellu trefniadau presennol yr Awdurdod ar gyfer codi tâl am wasanaeth, y sgôp ar gyfer cyflwyno taliadau a'r materion oedd ynglŷn â hynny.

Yn dilyn ystyried yr adroddiad, holodd yr Aelodau ynglŷn â rhai agweddau o'r cynigion yn arbennig o safbwynt gweinyddu'r system o ran costau a delio gyda rhai na fyddai'n cydymffurfio. Fe wnaed y sylwadau canlynol :

- Roedd rhai o'r Aelodau yn eithaf cefnogol i gyflwyno taliadau am wasanaeth mewn egwyddor yn arbennig o ystyried y diffyg yn y gyllideb y mae'r Awdurdod yn ei wynebu a'r angen i ganfod

ffyrdd o fynd i'r afael â'r diffyg hwnnw, ond gyda'r cymal y bydd yn rhaid ystyried y rhai sydd yn fregus os byddir yn gweithredu ar y cynigion.

- Mynegodd rhai o'r Aelodau amheuson y byddai'r cynigion yn cael effaith ar denantiaid ar gyflogau isel ac y byddent yn gost ychwanegol sylweddol iddynt.
- Roedd amheuson ynglŷn ag adwaith tenantiaid at newid i system oedd wedi bod mewn grym ers amser hir a'r angen wedi hynny i'r cynigion gael eu cyflwyno a'u gweithredu mewn ffordd sensitif.
- Roedd rhai amheuson na fyddai torri gwair yn digwydd o gwbl pe bai ffioedd yn cael eu cyflwyno i'r rhai dros 60 oed.

Penderfynwyd –

- **Nodi'r canfyddiadau a'r argymhellion o Gam 1 y prosiect fel oedd i'w weld yn yr adroddiad.**
- **Nodi'r sylwadau a wnaed o ran symud ymlaen gyda'r prosiect a'u cyfeirio hwy i'r Pwyllgor Gwaith.**

CAMAU GWEITHREDU'N CODI: Y Pennaeth Gwasanaeth (Tai) i adrodd ar yr atborth sgrwtini i'r Pwyllgor Gwaith.

8 MATERION PERFFORMIAD – CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL CHWARTER 2 2013/14 A MATERION CYSYLLTIEDIG

8.1 Cyflwynwyd y Cerdyn Sgorio Corfforaethol am Chwarter 2 i sylw'r Pwyllgor. Roedd y Cerdyn Sgorio yn dangos y sefyllfa ar ddiwedd Chwarter 2 o safbwynt perfformiad a chynnydd yn erbyn dangosyddion allweddol.

Dywedodd y Rheolwr Perfformiad a Chynllunio Busnes wrth yr Aelodau - yn dilyn sylwadau'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 29 Gorffennaf ynglŷn â fformat yr adrodd yn ôl ar y Cerdyn Sgorio ei fod yn dymuno gweld mwy o stori i ategu'r data, fe fydd yr adroddiad fydd yn dod ynghyd â'r Cerdyn Sgorio o hyn ymlaen yn cynnwys gwybodaeth bellach. Aeth y Swyddog ymlaen i amlygu'r meysydd lle y bu newidiadau yn y sgôr CAG neu lle'r oedd y statws CAG yn parhau ar goch ac eglurodd pa gamau oedd wedi eu cymryd mewn ymateb i faterion a godwyd gan y Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol yn ei gyfarfod fis Gorffennaf.

Ystyriodd yr Aelodau y wybodaeth a gyflwynwyd ac roeddent am dynnu sylw at y materion canlynol -

- Y ganran o ymweliadau statudol i blant y gofelir amdanynt yn y flwyddyn a wnaed yn unol â rheoliadau ac a oedd yn dwyn sgôr CAG coch.
- Presenoldeb salwch a % y cyfweiliadau Dychwelyd i'r Gwaith a gynhaliwyd gyda'r ddau yn is na'r targed a chyda sgôr CAG coch. Pwysleisiwyd pwysigrwydd ymyrraeth gynnar yn y meysydd hyn o reoli pobl ac awgrymwyd y dylid gwneud gwaith o'i gwmpas.
- Gan gyfeirio at Wasanaeth y Cwsmer a'r amser y mae'n ei gymryd i ymateb i alwadau ffôn a'r anawsterau y deuir ar eu traws wrth gael eich cyfeirio i'r person cywir. Cwestiynwyd pa mor ymarferol oedd hi i osod amser ymateb o 5 eiliad ar gyfer desg y dderbynfa.

Ymatebodd y Swyddogion i'r pwyntiau a godwyd gan roi eglurhad i'r Aelodau am y sefyllfa ym mhob achos a'r camau a gymerwyd neu sy'n cael eu cymryd lle bo hynny'n berthnasol.

Penderfynwyd nodi'r sefyllfa fel oedd yn cael ei adlewyrchu gan y Cerdyn Sgorio Corfforaethol ar gyfer Chwarter 2.

CAMAU GWEITHREDU'N CODI: Y Rheolwr Rhaglen a Chynllunio Busnes i adrodd ar yr atborth sgrwtini i'r Pwyllgor Gwaith.

8.2 Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Oedolion yn amlinellu'r camau gweithredu oedd yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd gwasanaeth o fewn gwasanaethau oedolion lle'r oedd statws CAG coch ar ddiwedd Chwarter 1 ynghyd â Cherdyn Sgorio mewnol y Gwasanaeth ei hun.

Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaeth Pobl Hŷn ac Anableddau Corfforol (a'r Rheolwr Gwasanaeth Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu) grynoded o'r cynnydd hyd yn hyn o safbwynt gwella'r perfformiad gyda chefnogi gofawyr anffurfiol oedolion trwy gynnal asesiad neu adolygiad o'u hanghenion yn ystod y flwyddyn, sef un o'r dangosyddion perfformiad oedd yn goch yn y chwarter blaenorol. Pwysleisiodd y Swyddogion bod cefnogi gofawyr yn un o'r prif feysydd blaenoriaeth yn y Gwasanaethau Oedolion ac yn fwrdd strategol allweddol.

Aeth y Swyddog Prosiectau ymlaen wedyn i egluro'r siwrnai i wella hyd yn hyn mewn perthynas â pherfformiad y Gwasanaethau Oedolion gyda rheoli absenoldeb salwch a chynnal cyfweiliadau dychwelyd i'r gwaith o fewn y cyfnodau amser sy'n ofynnol, sef yr ail faes perfformiad oedd â statws CAG coch yn Chwarter 1.

Roedd yr Aelodau yn derbyn ac yn nodi'r wybodaeth ac fe wnaed y pwynt ynglŷn â pha mor ddefnyddiol oedd meincnodi yn erbyn Awdurdodau eraill fel sbardun i wella perfformiad ac awgrymwyd y byddai hynny o gymorth i Aelodau.

Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys.

DIM CAMAU GWEITHREDU PELLACH YN CODI

9 MATERION PERFFORMIAD – CYNLLUN GWELLA BLYNYDDOL 2013/14

Cyflwynwyd er ystyriaeth y Pwyllgor Gynllun Gwella drafft Cyngor Sir Ynys Môn 2013/14. Roedd y Cynllun yn nodi prif flaenoriaethau'r Cyngor yn y 12 mis i ddod ynghyd â'r broses werthuso, yn cynnwys y dogfennau oedd yn helpu'r broses, ac a oedd wedi helpu i nodi'r amcanion gwella o fewn y cynllun.

Roedd Aelodau'r Pwyllgor yn derbyn yr adroddiad ac yn cytuno gyda'r amcanion gwella oedd wedi eu nodi ynddo.

Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys.

DIM CAMAU GWEITHREDU PELLACH YN CODI

10 GOFALWYR ANFFURFIOL – OEDOLION : BWRIADAU A BLAENORIAETHAU COMISIYNU LLEOL

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion yn amlinellu bwriadau comisiynu arfaethedig a'r blaenoriaethau mewn perthynas â gofawyr anffurfiol (oedolion).

Cafwyd cyflwyniad gweledol i'r Aelodau gan Gydlynnydd y Strategaeth Pobl Hŷn yn crynhoi'r prif faterion oedd yn yr adroddiad.

Dywedodd Eirian Wynne, Prif Swyddog, Gwasanaeth Cynnal Gofawyr ei bod yn croesawu'r ddogfen a'i bod yn edrych ymlaen i'w drafod mewn manylder yn y cyfarfod o'r Bwrdd Partneriaeth Gofawyr ar 28 Tachwedd.

Bu'r Aelodau yn trafod yr adroddiad gan nodi materion mewn perthynas â'r pwysau hefyd oedd ar ofalwyr ifanc a'r angen i'w nodi hwythau ac i roi sylw strategol i'w anghenion; beth yw'r manteision pe bai gofawyr yn dod ymlaen at yr Awdurdod a sut y gellir meintio'r manteision, a pha mor bwysig oedd hi i ofalwyr fod gofal ysbaid ar gael.

Penderfynwyd -

- **Derbyn yr adroddiad a chefnogi'r weledigaeth oedd yn sylfaenol i'r ddarpariaeth ar gyfer Gofawyr Anffurfiol; y blaenoriaethau strategol arfaethedig i Fôn a'r Cynllun Gwella amlinellol am y tymor canol.**
- **I nodi'r perfformiad lleol yn erbyn y Fframwaith Perfformiad Cenedlaethol.**

DIM CAMAU GWEITHREDU PELLACH YN CODI

11 CYNLLUN GWEITHREDU ADDYSG ÔL-AROLYGIAD

Cafwyd adroddiad gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol Dysgu Gydol Oes ar y cynnydd yn erbyn y Cynllun Gweithredu Ôl-arolwg, er ystyriaeth y Pwyllgor.

Cafwyd diweddariad gan Mr. Gareth Williams, Pennaeth Gwasanaeth ar y sefyllfa o ran cynnydd yn erbyn y saith argymhelliad allweddol a wnaed gan Estyn ac ar y perfformiad cyfredol fel oedd i'w weld yn Atodiad 3 yr adroddiad a'r hyn yr oedd yn ei ddangos am y gwelliannau oedd yn cael eu gwneud.

Bu'r Aelodau yn ystyried y wybodaeth a gyflwynwyd ac mewn trafodaeth gynhwysfawr, rhoddwyd sylw i'r materion canlynol yn arbennig -

- Presenoldeb yn yr ysgolion a materion cysylltiedig gan gynnwys y goblygiadau o ran yr effaith yr oedd cyfraddau presenoldeb yn eu cael ar safle'r Awdurdod o ran perfformiad. Trafododd yr Aelodau ffyrdd o wella ymhellach y cyfraddau presenoldeb, y dulliau mwyaf effeithiol i'w cymryd i'r perwyl hwnnw a'r rôl allweddol oedd yn cael ei chwarae gan y Swyddogion Lles Addysg.
- Arholiadau a'r nifer o ddisgyblion nad ydynt, am ba reswm bynnag, yn eistedd arholiadau a sut y maent yn ffitio i mewn i'r ystadegau perfformiad ynghyd â'r ddarpariaeth ar eu cyfer o ran llwybrau dysgu eraill.

Ymatebodd y Swyddogion drwy egluro'r materion a godwyd.

Penderfynwyd derbyn yr adroddiad cynnydd a nodi ei gynnwys.

DIM CAMAU GWEITHREDU PELLACH YN CODI

12 BLAENRAGLEN WAITH

Penderfynwyd gohirio ystyried y mater hwn hyd y cyfarfod nesaf.

13 MATERION ER GWYBODAETH

13.1 Adroddiad gan y Rheolwr Gwasanaeth Llyfrgell yn ymgorffori Adroddiad Blynyddol Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2012/13 a hefyd asesiad Llywodraeth Cymru o'r Gwasanaethau Llyfrgell 2012/13 – er gwybodaeth.

13.2 Nodwyd y bydd cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn cael ei gynnal am 1:00 pm ddydd Gwener, 15 Tachwedd 2013 i ystyried y mater o gapasiti ac adnoddau dros newid yng nghyd-destun darparu'r Cynllun Trawsnewid.

**Y Cyngorydd R. Meirion Jones
Cadeirydd**

PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

Cofnodion y Pwyllgor arbennig a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd, 2013

| | |
|--------------------------------|---|
| PRESENNOL: | Y Cyngorydd R. Meirion Jones (Cadeirydd) Y Cyngorydd G.O. Jones (Is-Gadeirydd) Y Cyngorwyr Lewis Davies, Jeff Evans, Ann Griffith, Victor Hughes, Llinos Medi Huws, Raymond Jones, P.S. Rogers |
| WRTH LAW: | Prif Weithredwr Dirprwy Brif Weithredwr Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 Rheolwr Sgrwtini Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| YMDDIHEURIADAU: | Y Cyngorydd Jim Evans, Y Cyngorwyr Derlwyn Hughes, Vaughan Hughes (wedi eu gwahodd) |
| HEFYD YN BRESENNOL: | Wedi eu gwahodd: Y Cyngorwyr Richard Dew, Alwyn Rowlands, John Griffith, Ken Hughes, Aled Morris Jones, H.Eifion Jones, R.Llewelyn Jones, Alun Mummery, Dylan Rees, R.G.Parry, OBE, J.Arwel Roberts. |

1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

2 CAPASITI AC ADNODDAU AR GYFER NEWID

Cyflwynwyd adroddiad y Dirprwy Brif Weithredwr yn nodi'r manylion am y capasiti ychwanegol y rhagwelir y bydd y Cyngor ei angen i gefnogi'r gwaith o ddarparu'r Cynllun Trawsnewid ac sydd i'w ariannu o'r gyllideb cost newid. Cafodd yr adroddiad ei gyflwyno i'w gymeradwyo'n wreiddiol i gyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 21 Hydref 2013.

Rhoddodd y Cadeirydd grynodeb byr ar gefndir y mater gan ddweud fod y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 21 Hydref wedi gohirio ystyried yr adroddiad er mwyn caniatáu i'r mater gael ei ystyried a'i sgrwtineiddio gan y Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol.

Aeth y Dirprwy Brif Weithredwr ymlaen i roi cyflwyniad gweledol i'r Pwyllgor yn darparu gwybodaeth gefndirol ynglŷn â'r Cynllun Trawsnewid a'r amserlenni ynglŷn ag ef; yr heriau wrth sicrhau trawsnewid yn y meysydd gwasanaeth a'r rhwystrau i newid yn y gorffennol; ymgysylltu â chyfathrebu gyda staff, y swyddogaethau trawsnewid ac yn benodol beth yr oedd disgwyl i'r capasiti ychwanegol arfaethedig ei gyflawni a'i ddarparu mewn perthynas â ffrydiau gwaith blaenoriaeth a nodwyd. Yn ei chyflwyniad, rhoes y Dirprwy Brif Weithredwr sylw penodol i'r pwyntiau canlynol -

- Y pedair swydd arfaethedig - Rheolwr Prosiect Moderneiddio Addysg; Rheolwr Trawsnewid Strategol Gofal Cymdeithasol; Rheolwr Trawsnewid Asedau a Swyddog Llywodraethu a Busnes gyda chyfnodau yn amrywio o 18 mis i 3 blynedd (3 blynedd yn achos y ddwy swydd gyntaf a 18 mis yn achos y ddwy swydd olaf).
- Roedd y swyddi yn darparu cyfleon datblygu i staff cyfredol a gellid eu llenwi ar sail secondiadau mewnol.
- Bydd deiliad y swyddi yn gweithio fel tîm ac yn darparu cefnogaeth i brosiectau eraill a thrwy hynny yn darparu tîm o unigolion a fedr ddarparu a chefnogi capasiti yn ôl yr angen ar draws y Rhaglen Trawsnewid.

- Bydd y swyddi yn lleihau'r angen am ymgynghorwyr allanol a'r costau sy'n gysylltiedig â hynny.
- Fe all y swydd Rheolwr Prosiect Addysg gael ei gyllido o'r Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif.
- Mae cyfanswm y costau a amcangyfrifir o ddarparu'r capasiti ychwanegol wedi ei adolygu i lawr i £204k yn dilyn arfarnu'r swyddi.

Rhodddwyd cyfle i Aelodau'r Pwyllgor ac Aelodau eraill o'r Cyngor oedd wedi eu gwahodd i'r cyfarfod ofyn cwestiynau i'r swyddogion ynglŷn â'r cynnig a'r hyn yr oedd yn ei olygu ac yn y drafodaeth gynhwysfawr a ddilynodd, roedd y canlynol ymysg y prif faterion yr edrychwyd i gael eglurhad arnynt -

- Y diffyg ymgysylltu ac ymgynghori ymlaen llaw gyda'r Aelodau Sgriwtini newydd ynglŷn â'r Rhaglen a'r cynlluniau Trawsnewid gyda chyfeiriad arbennig at y cynnig am gapasiti ychwanegol.
- Cyflymder y newid. Cwestiynodd rhai o'r Aelodau gyflymder y newid a'i effeithiau posibl o ran ychwanegu at y pwysau ar staff a chael effaith ar forâl y staff tra roedd aelodau eraill yn barnu nad oedd cyflymder y newid dros amser yn ddigonol i fynd i'r afael â'r heriau sydd o'n blaenau mewn rhai meysydd gwasanaeth. Nodwyd bod angen gweithredu newid mewn ffordd sensitif ac roedd hynny cyn bwysiced â gweithredu fel busnes.
- Oni ddylid bod wedi gweithredu cynllun diswyddiadau gorfodol o'r cychwyn pan ddaethpwyd i sylweddoli bod angen cael rhaglen o arbedion sylweddol fel y gallai'r Awdurdod fod mewn gwel sefyllfa i wneud asesiad o'r sefydliad staffio o ran y capasiti oedd ar gael ac yr oedd ei angen.
- A oedd y £500k a ddyrannwyd yng nghyllideb y flwyddyn gyfredol yn ddigon i gyfarfod â'r costau newid.
- Y cysylltiad rhwng ailstrwythuro'r Penaethiaid Gwasanaeth a'r Rhaglen Trawsnewid o ran cysoni colli rhai swyddi gyda'r cynnig i sefydlu capasiti ychwanegol.
- A oedd y swydd Swyddog Llywodraethu a Busnes yn dyblygu rhai o'r dyletswyddau a wneir gan swyddogion eraill - yn arbennig y Swyddog Adran 151 – yn cefnogi'r prosiectau newid.
- Y rhesymau am y gwahaniaethau mewn graddfa/cyflog rhwng y Rheolwr Trawsnewid Asedau Corfforaethol a'r Rheolwr Trawsnewid GCO o'i gymharu â chyflog y Rheolwr Prosiect Moderneiddio Ysgol a'r Swyddog Trawsnewid a Llywodraethu Corfforaethol.
- A oedd unrhyw feincnodi wedi ei gynnal gydag awdurdodau eraill i ganfod beth oedd y capasiti oedd ar gael ar hyn o bryd yn y meysydd hynny lle nodwyd yn yr adroddiad bod angen capasiti ychwanegol ar Ynys Môn. Awgrymwyd y dylid cael tystiolaeth gadarnhaol i ddangos nad oedd gan yr Awdurdod ddigon o gapasiti yn y meysydd hyn o'i gymharu ag awdurdodau eraill a bod y swyddi felly yn angenrheidiol.
- A fyddai'n bosibl, er mwyn gallu cyfiawnhau'r swyddi'n well, i ddiwygio eu cyfnod a thalu cyflog yn seiliedig ar ganlyniadau.
- A fyddai sefydlu'r swyddi ychwanegol hyn yn golygu costau cefnogaeth ychwanegol.
- A oes targed wedi ei osod o ran lleihau costau ymgynghori ac a fyddai'r arbedion fyddai'n deillio o hynny yn cael ei sianelu i gostau gorbenion mewn perthynas â'r swyddi arfaethedig.

Roedd aelodau'r Pwyllgor am bwysleisio'r ystyriaethau canlynol fel rhai dilyniadol.

- Er bod yr angen am y swyddi trawsnewid mewn perthynas ag Addysg a Gofal Cymdeithasol i Oedolion yn cael ei gydnabod o ystyried maint y gwaith trawsnewid yr oedd angen ei wneud yn y meysydd hyn, dygwyd sylw at bwysigrwydd asesu ac adolygu canlyniad y swyddi 3 blynedd hyn yn enwedig o ran ychwanegu gwerth a darparu arbedion y gellid eu gweld.
- Yn amodol â'r sicrhau'r arbenigedd a'r sgiliau angenrheidiol, bod y penodiadau i'r pedair swydd yn cael eu gwneud trwy secondiad mewnol.

Ymatebodd y Swyddogion i'r pwyntiau a godwyd trwy ddarparu eglurhad pellach lle'r oedd hynny'n briodol.

Cadarnhaodd y Pennaeth Swyddogaeth Adnoddau bod y dyblygu gwaith mewn perthynas â swydd y Swyddog Trawsnewid Corfforaethol a Llywodraethu yr oedd hi wedi son amdano yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 21 Hydref bellach wedi cael ei ddileu.

Pwysleisiodd y Prif Weithredwr natur gwario ac arbed y cynigion ynghyd â'r rhyngberthynas rhwng y pedair swydd arfaethedig o ran darparu Rhaglen Drawsnewid gyfannol ac integredig ar draws y Cyngor. Dywedodd y gallai ef a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ond cael eu dal i gyfrif am gyflawniad os oedd eu cyngor yn cael ei ddilyn.

Penderfynwyd argymhell i'r Pwyllgor Gwaith –

- **Bod y swyddi Rheolwr Prosiect Moderneiddio Addysg a'r Rheolwr Trawsnewid Strategol Gofal Cymdeithasol yn cael eu cymeradwyo am gyfnod o 3 blynedd yn amodol ar dderbyn adolygiad boddhaol o gynnydd a deilliannau ar ddiwedd 18 mis.**
- **Bod swyddi'r Rheolwr Trawsnewid Asedau a'r Swyddog Llywodraethu a Busnes yn cael ei gymeradwyo am gyfnod o 18 mis yn unol â'r cynnig.**
- **Yn amodol ar sicrhau'r sgiliau a'r arbenigedd angenrheidiol, bod y penodiadau'n cael eu gwneud i'r pedair swydd yn seiliedig ar secondiad mewnol.**

CAMAU GWEITHREDU'N CODI : Y Prif Weithredwr ac/neu'r Dirprwy Brif Weithredwr i ddarparu gwybodaeth gymharol i'r Pwyllgor Gwaith ynglŷn â'r capasiti mewn awdurdodau eraill yn y pedwar maes yr oedd y cynigion yn ymwneud â hwy (gyda chopi i Aelodau'r Pwyllgor Archwilio).

**Y Cynghorydd R. Meirion Jones
Cadeirydd**

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|--|
| ADRODDIAD I: | PWYLLGOR GWAITH |
| DYDDIAD: | 2 RHAGFYR 2013 |
| PWNC: | ADRODDIAD MONITRO'R GYLLIDEB AIL CHWARTER 2013/14 - GYFALAF |
| DEILYDD PORTFFOLIO: | Y CYNGHORYDD H E JONES |
| SWYDDOG ARWEINIOL: | CLARE J WILLIAMS |
| SWYDDOG CYSWLLT: | CLARE J WILLIAMS (EST. 2601) |
| Rheswm am yr adroddiad: | |
| Fel y gall y Pwyllgor Gwaith fod yn gyfrifol am fonitro cyllidebau ar lefel gorfforaethol. | |
| A. Rhagarweiniad / Cefndir / Materion | |
| 1. <u>CEFNDIR</u> | |
| 1.1 Dyma'r adroddiad monitro'r gyllideb am ail chwarter y flwyddyn ariannol. Yn Atodiad A, fe geir crynodeb o'r gwariant yn erbyn y gyllideb hyd at ddiwedd mis Medi. | |
| 2. <u>CYNNYDD</u> | |
| 2.1 Roedd y gwariant hyd ddiwedd mis Medi yn £6.1m ar gynlluniau cyffredinol, sy'n cyfateb i 36% o'r gyllideb gyfan. Mae hyn o flaen yr un cyfnod y llynedd (£4.5m, 27%). Roedd gwaith ar rai cynlluniau mawr yn mynd rhagddo yn ystod ail chwarter 2012/13 ond roedd wedi'i gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn, yr un mwyaf sylweddol oedd y Cynllun Amgylchedd Arfordirol. Yn ychwanegol at hyn, gwariwyd llai ar dri chynllun sylweddol arall yn ystod y chwarter hwn o gymharu â'r un cyfnod llynedd: (i) cafodd y rhaglen ar gyfer gwella'r mân-ddaliadau ei haddasu llynedd oherwydd bod derbyniadau cyfalaf ar ei hôl hi o gymharu â gwariant ac mae'r thema honno wedi parhau eleni; (ii) roedd y gwaith ar y Ganolfan Ailgylchu Gwastraff Domestig ym Mhenhesgyn bron yn gyflawn erbyn diwedd 2012/13, gyda llai o wariant eleni; a (iii) Cynllun y Tair Tref (Cyddyfeiriant). Bu cynnydd yn y gwariant ar rai gweithiau o gymharu â'r un cyfnod y llynedd, yn arbennig ar ail-leoli Ysgol y Bont (cynnydd o £2.4m yn y gwariant o gymharu â'r un cyfnod y llynedd). Yn ogystal bu rhai cynlluniau newydd a gyllidir gyda grant gychwyn eleni, gan gynnwys y Grant Dysgu yn y Gymru Digidol a'r grantiau cyfalaf Dechrau'n Deg. Effaith hyn yn gyffredinol oedd lefelau gweithgaredd uwch a mwy o gynnydd gyda rhaglen o gymharu â'r un cyfnod y llynedd. | |
| 2.2 Y gwariant hyd ddiwedd mis Medi ar gynlluniau tai oedd £1.3m, sef 18% o gyllideb gyfan dai. Mae hyn yn lefel llawer is na llynedd (£4.7m, 39%) oherwydd y gwaith ar y rhaglen SATC (oedd yn gyfrifol am £3.5m o'r gwariant yn Chwarter 2 o 2012/13), a gwblhawyd yn y trydydd chwarter o 2012/13. | |
| 2.3 Mae'r cyfanswm gwariant hyd at ddiwedd Medi yn 31% o'r gyllideb. Mae hyn oherwydd bod gwariant ar nifer o'r cynlluniau mawr, gan gynnwys gwaith priffyrdd dan y Fenter Bentyca Llywodraeth Leol, Grant Cyfalaf Dechrau'n Deg, Safleoedd ac Adeiladau Llangefni a Mona a'r Cynllun Cyddyfeiriant Tair Tref (Adfywio Ffisegol) yn digwydd tuag at ail hanner y flwyddyn yn bennaf. | |

2.4 Mae'r adroddiadau hyn yn canolbwyntio fel arfer ar gynlluniau a gyllidir gydag arian grant a phrosiectau eraill lle gall fod risg sylweddol os bydd y prosiectau'n llithro neu os bydd gorwariant. Fel yr adroddwyd eisoes, mae nifer y prosiectau a gyllidir gan grantiau wedi lleihau yn dilyn toriadau yng nghyllidebau Llywodraeth Cymru, er bod rhai prosiectau mawr a gyllidir gyda Grantiau Ewropeaidd ar y gweill (sef cynllun y Tair Tref a phrosiect Safleoedd ac Adeiladau Llangefni a Mona). Hefyd, mae wyth o brosiectau a gyllidir gan Lywodraeth Cymru ar y gweill (dau yn parhau o 2012/13), y mwyaf sylweddol oedd y cynllun i adleoli Ysgol y Bont.

2.4.1 Y tri phrosiect mwyaf amlwg o ran risg yw:-

2.4.1.1 Adleoli Ysgol y Bont - fel yr adroddwyd eisoes, roedd y prosiect sawl wythnos y tu ôl i'r amserlen ar ddiwedd 2012/13, yn bennaf oherwydd tywydd gwael. Rhaglennwyd bellach y bydd y gwaith adeiladu wedi ei gwblhau tuag at ddiwedd Rhagfyr 2013 ac y bydd y prosiect wedi ei gwblhau'n derfynol erbyn diwedd Ionawr 2014. Disgwylir na fydd y dyddiad cwblhau hwyrach yn cael effaith ar y cymhwyster i dderbyn grant. Mae risg o orwariant oherwydd y cyfnod adeiladu estynedig a gwnaed darpariaeth ar ei gyfer. Fodd bynnag, mae perygl na fydd y ddarpariaeth yn ddigonol ac y bydd y prosiect yn gorwario. Ar hyn o bryd nid oes modd cael rhagamcanion eglurach ond mae'r prosiect yn cael ei fonitro'n agos ac mae risgiau a nodir yn cael eu lliniaru cymaint â phosib.

2.4.1.2 Mae'r rhaglen ar gyfer gwella'r mân-ddaliadau (cyllid ar ei chyfer wedi ei neilltuo o'r derbyniadau cyfalaf yn sgil gwerthu'r mân-ddaliadau) yn ei phedwaredd flwyddyn ac mae'r rhestr waith sydd wedi ei flaenoriaethu ar gyfer eleni wedi cyrraedd y cyfnod tendro ar yr amod y ceir caniatâd i gychwyn gwaith ar y safle. Mae'r rhaglen ar gyfer cynhyrchu incwm wedi cael ei hadolygu ymhellach er mwyn adlewyrchu cyflwr y farchnad sy'n golygu fod amseriad derbyniadau cyfalaf wedi bod ar ei hôl hi o gymharu â gwariant dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'r rhaglen yn parhau i fod ar y blaen i'r derbyniadau cyfalaf, gyda diffyg o £1,590k wedi ei ddwyn ymlaen o 2012/13. Rhagwelir y bydd y newidiadau i'r rhaglen waith a gwerthu'r mân-ddaliadau yn golygu y bydd y rhaglen yn dychwelyd i sefyllfa ariannol gytbwys/gwarged yn ystod 2013/14. Bydd y rhaglen wariant yn cael ei hadolygu ymhellach yn ystod y flwyddyn cyn ymrwymo i waith pellach ar y safle ac yn wyneb y datblygiadau sy'n mynd rhagddynt mewn perthynas â derbyniadau cyfalaf.

2.4.1.3 Y cynllun olaf i'w nodi yw prosiect Pier Biwmares (rhan o'r Cynllun Amgylchedd Arfordirol). Er bod y gwaith adnewyddu wedi cael ei gwblhau, nodwyd eisoes fod trafodaethau'n parhau ynghylch gwerth gwirioneddol y gwaith a wnaed dan y contract. Efallai y bydd rhaid i'r Cyngor dalu swm ychwanegol dan y contract gwaith ond ni fedrir asesu faint gydag unrhyw sicrwydd ar hyn o bryd. Ar hyn o bryd nid yw'r gwaith cywiro wedi ei wneud a disgwylir y bydd yn cael ei ohirio tan y flwyddyn nesaf pan fydd y tywydd wedi gwella; o'r herwydd, nid yw'r ffi gadw wedi ei thalu ac nid yw'r cyfrif terfynol wedi ei gyhoeddi. Nid oes disgwyl i'r mater gael ei ddatrys, felly, tan y flwyddyn nesaf.

3. **ADNODDAU**

3.1 **Grantiau Cyfalaf**

3.1.1 Mae bidiau'r Cyngor eisoes wedi cael eu cymeradwyo ar gyfer cyllid Cydgyfeiriant cyfredol, ac mae'r cyllid cyfatebol hefyd wedi cael ei glustnodi ar gyfer y cynlluniau hyn. Yn ystod y chwarter, mae cyfle wedi codi i fidio am arian ychwanegol i ymestyn y Prosiect Amgylchedd Arfordirol a allai olygu y bydd hyd at £0.9m ychwanegol ar gael. Er mwyn cael y cyllid ychwanegol hwn mae gofyn i'r Awdurdod ddarparu cyllid cyfatebol o £70,000. Mae rhagor o fanylion ar gael i'w gweld yn Atodiad B ac mae argymhelliad yn Adran D.

3.1.2 Fel yr adroddwyd eisoes, mewn ymateb i ddatganiad gan Lywodraeth Cymru ar gyllid ar gyfer adfywio trefol yn y dyfodol, cyflwynodd y Cyngor Sir gynnig amlinellol ym mis Gorffennaf 2013 am oddeutu £9.5m ar gyfer rhaglen adfywio a buddsoddiad tai eang yng Nghaerdybi am y cyfnod 2014 i 2017. Ym mis Medi cyhoeddwyd mai'r Cyngor hwn oedd un o 11 awdurdod a oedd yn cael gwahoddiad i gyflwyno cynnig manylach erbyn diwedd mis Tachwedd, gyda 7 yn debygol efallai o fod yn llwyddiannus. Mae'r cynnig ail gam hwn yn adlewyrchu atborth a chanllawiau Llywodraeth Cymru a gofynnir am swm is, sef oddeutu £7.5m, ar ffurf cyllid cyfalaf gan LIC. Mae'r blaenoriaethau a nodwyd yn cynnwys cymorth tuag at gartrefi newydd, gwella adeiladau cyfredol fel cartrefi, cymorth ar gyfer moderneiddio ysgolion, adeiladau busnes newydd, gwelliannau canol tref, moderneiddio cyfleusterau twristiaeth a hamdden, datblygiadau cymunedol cynaliadwy a thrawsnewid cyfleusterau cyhoeddus. Os bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r cais i neilltuo cyllid ar gyfer Caerdybi ym mis Ionawr 2014, bydd angen sefydlu strwythur llywodraethu addas a pharatoi ac ystyried mandadau prosiect/achosion busnes unigol yn unol â gweithdrefnau'r Cyngor ac amodau grant LIC. Oni fydd y cynnig yn llwyddo yn y rownd hon, efallai y bydd Llywodraeth Cymru yn darparu arian cyfyngedig ar gyfer gweithgareddau datblygu. Rhoddir gwybod am gynnydd fel sy'n briodol.

3.2 **Derbyniadau Cyfalaf**

3.2.1 Mae'r derbyniadau cyfalaf y mae modd eu defnyddio ar gyfer eleni ac y cyllidebwyd ar eu cyfer, ar ôl effaith canlyniadau 2012-13 a'r derbyniadau hyd yma, fel a ganlyn:-

| | Cyllideb £'000 | Derbyniwyd hyd at 30 Medi 2013 £'000 |
|---------------------------|---------------------------|---|
| Tai – CRT | | |
| Gwerthiannau Hawl i Brynu | 75 | Dim |
| Gwerthu Tir | 500 | 34 |
| Tai Sector Preifat | | |
| Gwerthu Plotiau | | |
| Taliadau a ad-dalwyd | }150 | 5 |
| Grantiau a ad-dalwyd | | |
| Cronfa'r Cyngor : | | |
| Mân-ddaliadau | [250] | 65 |
| Cyffredinol | | |
| Diwydiannol | }600 | 416 |

**Incwm Mân-ddaliadau yn erbyn cyllideb ddangosol*

*** Mae cyllid yr Awdurdod yn y flwyddyn ar gyfer adleoli Ysgol y Bont yn deillio o dderbyniadau cyfalaf a ragwelir pan fydd safle Ysgol y Graig yn cael ei werthu yn y dyfodol.*

3.2.2 Mae derbyniadau cyfalaf CRT yn fyr o'r gyllideb, heb unrhyw werthiannau hawl i brynu hanner cyntaf y flwyddyn. Disgwylir y bydd tai yn cael eu gwerthu dan yr hawl i brynu yn ystod gweddill y flwyddyn.

3.2.3 Mae derbyniadau cyfalaf tai sector preifat gryn dipyn yn is na'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn. Mae'r derbyniadau hyn yn fwy heriol i'w rhagamcan oherwydd maent yn dibynnu ar weithredoedd y sawl sy'n derbyn yr arian.

3.2.4 Mae derbyniadau cyfalaf cronfa'r Cyngor £0.2m yn fyr o'r gyllideb flynyddol. Fodd bynnag, oherwydd y gweithgareddau gwerthu a'r trafodaethau sy'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd, disgwylir y bydd modd cwrdd â'r gyllideb erbyn diwedd y flwyddyn.

3.2.5 Cyfeirir at dderbyniadau cyfalaf o'r mân-ddaliadau'n Adran 2.4.1.2.

4. NEWIDIADAU A NEWIDIADAU POSIB ELENI

4.1 Mae'r arian wrth gefn sydd heb ei ddyrannu fel a ganlyn:-

| | Dygwyd Ymlaen 2012-13 £000 | Cyllideb 2013-14 £'000 | Dyrannwyd 2013-14 £'000 | Addasiadau 2013-14 | Cyfanswm swm ar gael 2013-14 £'000 |
|--|-------------------------------------|------------------------------|-------------------------------|-----------------------|--|
| Cyllid Cyfatebol/ Adfywio | 784 | Dim | (295) | Dim | 489 |
| Cronfa wrth gefn – Gwelliannau Hamdden | 197 | Dim | Dim | Dim | 197 |
| Rhesymoli Asedau | 1,272 | 850 | Dim | Dim | 2,122 |
| Heb ei dyrannu | 460 | Dim | (120) | Dim | 340 |
| Astudiaethau Dichonoldeb | 460 | Dim | Dim | Dim | 460 |
| Benthyca digefnogaeth* | Dim | 1,000 | Dim | Dim | 1,000 |

*Nid yw'r elfen honno o'r arian wrth gefn ar gyfer benthyca di-gefnogaeth yn cael ei gario i'r flwyddyn newydd

4.1.1 Ers yr adroddiad diwethaf mae £225k wedi ei ddyrannu o'r gronfa wrth gefn ar gyfer cyllid cyfatebol/adfywio i ddarparu cyllid cyfatebol tuag at y cynllun atal llifogydd ym Miwmares a allai ddenu cyllid gan LIC ar gyfradd o 85%. Bydd rhagor o wybodaeth a diweddariadau ar y cynllun hwn, gan gynnwys y bidiau, ar gael mewn adroddiadau i'r dyfodol.

4.1.2 Yn y chwarter hwn cymeradwyodd y Pwyllgor £120k ar gyfer adnewyddu ystafelloedd gwely yng Nghartref Preswyl Brwynog. Gofynnir am ganiatâd gan y Pwyllgor hwn i ddefnyddio'r arian o'r gronfa wrth gefn sydd heb ei dyrannu.

4.1.3 Fel y manylwyd yn Adran 3.1.1 mae cyfle wedi codi i gael cyllid ychwanegol ar gyfer estyn Prosiect Amgylcheddol Arfordirol Ynys Môn. Os bydd y Pwyllgor hwn yn dymuno cefnogi estyn y prosiect hwn, cynigir bod £70k yn cael ei ddyrannu o'r pennawd 'cyllid cyfatebol/adfywio' uchod. Gwnaed cyfrif am effaith hynny yn y tabl uchod.

4.1.4 Os daw'n amlwg na fydd modd sicrhau'r derbyniadau cyfalaf y cyllidebwyd ar eu cyfer, neu os yw pwysau eraill yn codi ar y gyllideb, efallai y bydd rhaid defnyddio llai o'r arian wrth gefn sydd heb ei ddyrannu. Bydd angen cynnal yr adolygiad hwn pan ystyrir unrhyw ymrwymadau i'r dyfodol o'r cronfeydd wrth gefn hyn. Un enghraifft o bwys yw cynllun ail-leoli Ysgol y Bont y bydd angen adnoddau ychwanegol ar ei gyfer efallai ac y byddai rhaid, felly, ei gymryd i ystyriaeth pan fydd sylw'n cael ei roi i ddyraniadau pellach o'r cronfeydd wrth gefn hyn.

5. EDRYCH YMLAEN

5.1 Mae dwy eitem y mae'n werth sôn amdanynt yma: rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} sy'n cael ei chefnogi gan Lywodraeth Cymru a'r rhaglen rhesymoli asedau.

5.2 Mae dwy elfen i'w nodi o ran rhaglen Ysgolion yr 21^{ain}, sef yr Achos Strategol Amlinellol (ASA) ar gyfer y cynlluniau o fewn Bandiau A-D a'r Rhaglen Strategol Amlinellol (RhSA) ar gyfer y rhaglen yn ei chyfanrwydd.

5.2.1 Mae'r Band A gwreiddiol a gymeradwywyd yn cynnwys cynllun sengl ar gyfer ysgol gynradd newydd yng Nghaerdybi. Fel yr adroddwyd eisoes, mae'r cynllun wedi ei ohirio am y tro er mwyn caniatáu ar gyfer gwaith ymchwilio a gwerthuso opsiynau ac mae'r sefyllfa honno'n parhau. Rhagwelir y bydd yr ASA ar gyfer y cynllun yma'n cael ei gyflwyno i LIC yn 2014.

5.2.2 Mae RhSA diwygiedig wrthi'n cael ei pharatoi ar hyn o bryd. Mae'r RhSA yn cynnwys y rhaglen gyfan (Bandiau A i D). Adroddwyd eisoes y byddai'r drafft diwygiedig yn cael ei gyflwyno erbyn canol Mehefin 2013. Oherwydd amgylchiadau yn cynnwys trafodaethau gyda LIC ynglŷn â'r pecyn cyllido a fydd ar gael, nid yw'r RhSA diwygiedig wedi ei chwblhau eto. Rhagwelir y bydd y RhSA diwygiedig yn cael ei gyflwyno i LIC fis Rhagfyr.

5.2.3 Adroddir ar wahân ar y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran ASA a RhSA Band A a bydd diweddariadau'n cael eu cynnwys yn yr adroddiadau chwarterol hyn fel sy'n briodol.

5.3 Adroddwyd eisoes fod Partneriaethau Lleol wedi bod yn gweithio gyda swyddogion i wneud gwaith gwerthuso opsiynau mewn perthynas â rhaglen rhesymoli asedau'r Cyngor. Cafodd adroddiad ar 'Gwerthuso Opsiynau ar gyfer Datrysiadau Darparu Posib' ei gyflwyno'n gynharach yn y flwyddyn. Ers hynny, parhawyd i ddefnyddio Partneriaethau Lleol i wneud gwaith pellach er mwyn datblygu cynigion sydd wedi eu halinio gyda thrawsnewid gwasanaethau allweddol a'r gofynion cysylltiedig o ran asedau. Bwriedir i'r gwasanaethau perthnasol gyflwyno eu cynlluniau trawsnewid yn y man.

C – Goblygiadau ac Effaith

| | | |
|-----------|---|--|
| 1 | Cyllid / Adran 151 | |
| 2 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro | |
| 3 | Adnoddau Dynol | |
| 4 | Gwasanaethau Eiddo (Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 5 | Technoleg Cyfathrebu a Gwybodaeth | |
| 6 | Cydraddoldeb (Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 7 | Gwrthdodi a Chymdeithasol (Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 8 | Cyfathrebu (Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 9 | Ymgynghori (Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 10 | Economaidd | |
| 11 | Amgylcheddol (Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 12 | Trosedd ac Anhrefn (Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 13 | Cytundebau Canlyniadau | |

CH – Crynodeb

Roedd y gwariant ar gynlluniau cyffredinol hyd at ddiwedd Medi yn £6.1m (36% o'r gyllideb gyfan). Gwariwyd £1.3m ar gynlluniau tai (18% o gyllideb gyfan dai) hyd at fis Medi. Roedd y gwariant cyffredinol yn 31% o'r gyllideb gyfan, gan fod gwariant ar nifer o'r cynlluniau mwy yn digwydd tuag at ail hanner y flwyddyn.

Mae yna gynlluniau y mae risgiau ynghlwm wrthynt o ran mynd dros y gyllideb neu sy'n ymwneud â derbyn cyllid grant. Y cynlluniau o bwys y dylid eu nodi yw adleoli Ysgol y Bont, y trafodaethau terfynol ar gyfer gwaith adnewyddu Pier Biwmares a rhaglen wella'r mân-ddaliadau. Mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau fod unrhyw risgiau sy'n codi o'r holl gynlluniau yn cael eu nodi a'u lleihau.

Fel adroddwyd chwarter diwethaf, cyflwynodd yr Awdurdod fid ar gyfer y cynllun sydd yn disodli rhaglen gyfredol LIC ar gyfer ardaloedd adfywio, sef 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid'. Roedd yr Awdurdod hwn yn un o 11 o awdurdodau a wahoddwyd i gyflwyno cais yn y rownd nesaf o fidio. Cyflwynir y cais yn fuan iawn a disgwylir penderfyniad yn Ionawr 2014.

Yn ystod y chwarter, cododd cyfle i fidio am arian ychwanegol dan y Cynllun Amgylchedd Arfordirol (Cydgyfeiriant). Mae'r cynigion wedi cael eu datblygu a gallant arwain at gyllid ychwanegol i'r Awdurdod o hyd at £0.9m ar gyfer cynlluniau newydd.

Cyfanswm y derbyniadau cyfalaf i ddiwedd Medi oedd £5m (ac eithrio derbyniadau a oedd wedi eu neilltuo'n benodol i'r mân-ddaliadau) ac roedd £0.4m yn dderbyniadau i Gronfa'r Cyngor. Disgwylir y bydd derbyniadau cyfalaf cyffredinol a diwydiannol yn cwrdd â'r £0.6m a gyllidebwyd erbyn diwedd y flwyddyn. Roedd derbyniadau cyfalaf ar gyfer y mân-ddaliadau, sydd wedi cael eu neilltuo'n benodol ar gyfer y rhaglen gwella mân-ddaliadau, £1.9m ar ei hôl hi o gymharu â gwariant hyd at 30 Medi. Disgwylir i'r rhaglen mân-ddaliadau fod mewn sefyllfa gytbwys neu sefyllfa o warged erbyn diwedd y flwyddyn a chymerwyd camau i ostwng y risg o lithro'n ymhellach.

Gan edrych ymlaen, mae yna ddau gynllun o bwys y dylid eu nodi: sef rhaglen Ysgolion y 21ain Ganrif a'r rhaglen rhesymoli asedau. Mae RhSA ddiwygiedig ar gyfer rhaglen Ysgolion y 21ain Ganrif i fod i gael ei gyflwyno yn Rhagfyr. Yna, disgwylir y bydd yr ASA ar gyfer Band A ar gyfer yr ysgol gynradd newydd yng Nghaerdybi yn cael ei gyflwyno yn 2014. O ran y rhaglen rhesymoli asedau, mae Partneriaethau Lleol yn parhau i gynorthwyo gwasanaethau a bwriedir i'r gwasanaethau perthnasol gyflwyno eu cynlluniau trawsnewid yn y man.

D - Argymhelliadau

- (a) Nodi cynnydd o ran gwariant a derbyniadau yn erbyn y gyllideb gyfalaf;
- (b) Nodi dyrannu £225,000 tuag at gynllun atal llifogydd ym Miwmares o gronfa wrth gefn ar gyfer cyllid cyfatebol/adfywio (gweler Adran 4.1.1);
- (c) Cymeradwyo dyrannu £120,000 o'r gronfa wrth gefn sydd heb ei dyrannu er mwyn cyllido'r gwaith adnewyddu yng Nghartref Preswyl Brwynog (gweler Adran 4.1.2);
- (ch) Cymeradwyo dyrannu £70,000 o'r gronfa wrth gefn sydd heb ei dyrannu ar gyfer cyllid cyfatebol/adfywio ar gyfer yr estyniad i Brosiect Arfordirol Ynys Môn (gweler Adran 4.1.3).

Enw awdur yr adroddiad: Clare J Williams
Swydd: Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)
Dyddiad: 15 Tachwedd 2013

Atodiadau:

Atodiad A: Cyllideb Cyfalaf 2013-14 - Crynodeb : Medi 2013.
Atodiad B : Prosiect Amgylchedd Arfordirol Môn – Pecyn Cyllid Cam 2.

Papurau Cefndirol:

Dim

Atodiad A

Cyllideb Cyfalaf 2013-14 : Medi 2013

| Prosiectau | Cyllideb 2013- 14£'000 | Llithriad 2012-13 £'000 | Cyfanswm £'000 | Gwariant £'000 % | | Sylwadau |
|---|------------------------------|-------------------------------|-------------------|---------------------|-----------|--|
| Tai | 5,848 | 1,227 | 7,075 | 1,298 | 18 | |
| Cyfrif Refeniw Tai (CRT) | 4,948 | 0 | 4,948 | 1,031 | 21 | Mae'r gwaith yn mynd yn ei flaen a gwnaed yr holl contractau arwyddocaol. Disgwylir y bydd y rhan fwyaf o'r gwaith wedi ei gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn, gyda pheth llithriad i'r flwyddyn nesaf. |
| Preifat : Grantiau | 900 | 774 | 1,674 | 267 | 16 | Disgwylir i'r cynlluniau grantiau a benthyciadau ennill mwy o fomentwm yn ystod ail hanner y flwyddyn gyda disgwyl y bydd rhan sylweddol o'r gyllideb wedi ei gwario erbyn diwedd y flwyddyn. |
| Tai Fforddiadwy | 0 | 453 | 453 | 0 | 0 | Fel y dywedwyd eisoes, mae blaenoriaethau gwariant eraill yn cael eu hystyried gyda'r cyllid y bydd ei angen ar gyfer y cynllun achub morgais/prynu cartref, a fydd yn denu cyfraniad gan Gymdeithas Tai Eryri. Bydd anghenion ariannol y gwahanol flaenoriaethau yn cael eu penderfynu yn Ch3. |
| Addysg | 6,923 | 2,012 | 8,935 | 3,880 | 43 | |
| Ysgol y Bont – Adleoli | 4,500 | 1,868 | 6,368 | 3,072 | 48 | Fel yr adroddwyd yn flaenorol, roedd y prosiect nifer o wythnosau ar ei hôl hi ar ddiwedd 2012/13, yn bennaf oherwydd tywydd gwael. Rhaglennwyd y bydd y gwaith adeiladu wedi ei gwblhau tuag at ddiwedd Rhagfyr 2013 ac y bydd y prosiect wedi ei gwblhau'n llawn erbyn diwedd Ionawr 2014. Disgwylir na fydd y dyddiad cwblhau hwyrach yn cael effaith ar y cymhwyster i dderbyn grant, a disgwylir i'r targedau gwariant a osodwyd gan LIC gael eu cyflawni yn seiliedig ar y rhagamcanion llif arian diweddaraf. Mae yna risg o orwariant o ganlyniad i'r cyfnod adeiladu estynedig, ond fe wnaed trefniant arian wrth gefn ar ei gyfer. Fodd bynnag, mae risg na fydd yr arian hwnnw yn ddigonol ac y bydd y prosiect yn gorwario. Nid yw'n bosibl ar hyn o bryd i wneud rhagamcanion cliriach ond mae'r prosiect yn cael ei fonitro'n agos ac mae unrhyw risgiau a nodir yn cael eu lliniaru i'r graddau y mae hynny'n bosibl. |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif Band A – Ysgol Gynradd Newydd Caergybi | 545 | 42 | 587 | 3 | 1 | Fel yr adroddwyd yn flaenorol, mae'r Achos Amlinellol Strategol (SOC) ar gyfer y Cynllun Band A (ysgol gynradd newydd yng Nghaergybi) wedi cael ei ohirio am y tro tra bod ymchwiliadau a gwaith gwerthuso opsiynau yn cael ei wneud. Rhagwelir y bydd y SOC hwn yn cael ei gyflwyno i LIC yn 2014. |
| Grant Cyfalaf Dechrau'n Deg 2013/14 | 505 | 0 | 505 | 85 | 17 | Fel y adroddwyd yn flaenorol, ceisiwyd cael caniatâd gan LIC i ddiwygio'r cynlluniau gwariant er mwyn cael gwell aliniad i'r blaenoriaethau gwariant a'r anghenion ac i allu gwneud rhagamcan newydd a mwy diweddar o gostau. Cafwyd cymeradwyaeth ar gyfer y cynllun ac mae'r gyllideb wedi ei diwygio. Disgwylir y bydd y prosiectau wedi eu cwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ac y bydd y grant wedi ei hawlio'n llawn. |
| Grant Dysgu yng Nghymru Ddigidol (LiDW) 2013/14 | 590 | 0 | 590 | 235 | 40 | Mae'r gwaith bellach wedi cychwyn a disgwylir ei gwblhau cyn diwedd y flwyddyn ac y bydd y grant yn cael ei hawlio'n llawn. |
| Addysg : Arall | 783 | 102 | 885 | 485 | 55 | Mae hwn yn ymwneud â chynlluniau gwaith bychan mewn gwahanol ysgolion. Mae'r cyllidebau wedi eu hymrwymo'n llawn ac mae'r cynnydd yn ôl y disgwyl. Yn ogystal â'r cyllidebau hyn mae cronfa wrth gefn hefyd gan Addysg ar gyfer ysgolion yr 21ain Ganrif sy'n cynnwys £850k. |
| Adfywio | 5,475 | -639 | 4,836 | 1,756 | 36 | |
| Datblygu Economaidd: Seilwaith Strategol - Safleoedd ac Eiddo | 200 | 150 | 350 | 100 | 29 | Mae'r cynllun meistr wedi ei ddatblygu a'r cais cynllunio ar gyfer yr unedau wedi ei ganiatáu. Mae'r gwaith caffael yn cael ei wneud ar hyn o bryd a disgwylir y bydd y gwaith adeiladu yn cychwyn yn Ionawr 2014. Disgwylir y bydd y cynllun wedi ei gwblhau yn 2014/15. |
| Datblygu Economaidd: Arall | 140 | 795 | 936 | 55 | 6 | Mae hwn yn ymwneud yn bennaf ag arian cyfatebol a chyllido partneriaethau gyda'r ddau ohonynt bron wedi eu hymrwymo'n llawn. |
| Eiddo: Rhaglen Gwella'r Mân-ddaliadau | 250 | -1,590 | -1,340 | 386 | -29 | Mae'r rhaglen gwella mân-ddaliadau yn ei phedwaredd flwyddyn ac mae'r gwaith a flaenoriaethwyd ar gyfer y flwyddyn gyfredol wedi ei wneud hyd at y cyfnod tendro, gan ddisgwyl am ganiatâd i ddechrau gwaith ar y safle. Bu'r rhaglen o gynhyrchu incwm o dan adolygiad pellach er mwyn adlewyrchu cyflwr gwan y farchnad, gyda'r canlyniad i amseru derbyniadau cyfalaf ddisgyn y tu ôl i wariant dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'r rhaglen yn parhau i fod ar y blaen i dderbyniadau cyfalaf, gyda diffyg o £1,589k ar ddiwedd flwyddyn 2012/13. Rhagwelir y bydd y newidiadau i'r rhaglen waith a gwerthiant mân-ddaliadau yn gweld y rhaglen yn dychwelyd i sefyllfa o falans/gwarged yn ystod 2013/14. Bydd y rhaglen wariant yn cael ei hadolygu ymhellach yn ystod y flwyddyn cyn ymrwmo i waith pellach ar y safle ac yng ngoleuni datblygiadau pellach yng nghyswllt derbyniadau cyfalaf. |

| Prosiectau | Cyllideb 2012- 13£'000 | Llithriad 2011-12 £'000 | Cyfanswm £'000 | Gwariant | | Sylwadau |
|--|------------------------------|-------------------------------|-------------------|--------------|-----------|--|
| | | | | £'000 | % | |
| Rheoli Gwastraff : Safle Mwynderau Penhesgyn | 0 | 6 | 6 | 355 | 5,917 | Fel adroddwyd yn flaenorol, cwblhawyd y Safle Ailgyhyrchu Gwastraff Domestig a'i hagor fis Gorffennaf. Fel yr adroddwyd yn flaenorol, cynyddwyd y gyllideb gychwynnol o £850k i £1m fel y gallai gwaith ychwanegol gael ei wneud. Cafwyd mwy o wariant yn Chwarter 2 y flwyddyn hon a gorwariwyd y prosiect ar y gyllideb £1m gan oddeutu £0.35m. Mae rhan o'r gorwariant i'w briodoli i'r dyluniadau / cynlluniau cychwynnol ac mae'r gwasanaeth yn ymchwilio i opsiynau i leihau'r gost derfynol i'r Awdurdod, tra comisynwyd gwaith ychwanegol, sef adeiladu slab ychwanegol ar gyfer storio gwastraff gwyrdd a gwaith concretio pellach ar gyfer lonydd mynediad a pharcio ceir. Roedd y bartneriaeth IVC gyda Gwynedd a Chonwy yn cwrdd â rhan sylweddol o'r costau ychwanegol. |
| Adfywio Ffisegol (3 Tref) | 2,000 | 0 | 2,000 | 214 | 11 | Mae rhan sylweddol o'r gyllideb yn ymwneud â phrosiectau Menter Treftadaeth Treflun Caerdybi. Cymeradwywyd grantiau o £2.1m hyd yma eleni a disgwylir y byddant yn cael eu talu'n llawn eleni. Ni fydd h yn achosi unrhyw broblemau cyllido oherwydd bod modd dwyn y cyllid allanol ymlaen. |
| Priffyrdd: Menter Benthycu Llywodraeth Leol 2013/14 | 1,800 | 0 | 1,800 | 637 | 35 | Disgwylir i'r gwaith ennill momentwm yn ystod y flwyddyn, a hynny tuag at ail hanner y flwyddyn. Disgwylir y bydd yr holl waith a raglennwyd wedi ei gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn. |
| Priffyrdd: Grant Consortia Cludiant Rhanbarthol 2013/14 | 663 | 0 | 663 | 7 | 1 | Grant yw hwn ar gyfer diogelwch y ffyrdd a chynlluniau cludiant. Mae gan y cynlluniau diogelwch y ffyrdd ddyraniad grant o £105k. Mae swyddogion ar hyn o bryd yn ceisio cael caniatâd i wneud gwelliant i'r rhaglen a fydd yn golygu defnyddio'r gyllideb yn unig ar gyfer gwaith dylunio ac astudiaethau dichonoldeb. Gwnaed mân waith astudiaethau dichonoldeb hyd yma o fewn telerau grant. Mae dyraniad grant o £558k ar gyfer y cynlluniau cludiant. Mae gwaith paratoadol ar droed, gyda'r mwyafrif o'r gwariant yn cael ei ddisgwyl yn ail hanner y flwyddyn. Mae'r gwaith wedi ei bewyso tuag at ail hanner y flwyddyn gan na chafwyd cadarnhad o gyllid grant ond ym mis Ebrill y flwyddyn hon. |
| Priffyrdd : Grant Llwybrau Diogel mewn Cymunedau 2013/14 | 422 | 0 | 422 | 2 | 0 | Mae'r prosiect yn golygu rhai agweddau mwy cymhleth fel prwcasu tir, dylunio ac ymgynghori. Mae'r gwaith ymgynghori a phryniannau tir wedi eu cwblhau. Mae gwaith yn parhau ar y cynllun a disgwylir y bydd wedi ei gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ac y bydd y grant yn cael ei ddefnyddio'n llawn. |
| Arall | 2,020 | 1,050 | 3,070 | 491 | 16 | |
| Priffyrdd: Arall | 650 | 188 | 838 | 168 | 20 | Mae un rhan o dair y gyllideb hon yn ymwneud â'r gyllideb am gerbydau, gyda gwaith gwerthuso opsiynau'n bellach wedi ei gwblhau a cychwynwyd ar y caffael. Mae gweddill y gyllideb yn ymwneud â gwaith ail-wynebu, strwythurau a goleuadau stryd sy'n mynd rhagddo fel y disgwylir. |
| Arall | 650 | 321 | 971 | 294 | 30 | Mae hwn yn ymwneud yn bennaf â mynediad i'r anabl a gwaith rheoli risg adeiladau, gyda'r cyllidebau wedi eu hymrwymo'n llawn. Mae'r holl waith yn mynd yn ei flaen yn ôl y disgwyl. |
| Cynlluniau Adrannol Eraill | 720 | 541 | 1,261 | 29 | 2 | Mae'r mwyafrif o'r gyllideb hon yn ymwneud â grantiau i gynlluniau trydydd parti, a gyllidir gan Lywodraeth Cymru. Mae hefyd yn cynnwys cyllidebau TGCh, yn cynnwys arian wrth gefn ar gyfer anghenion yn y dyfodol. Yn ogystal â'r gyllideb hon neilltuwyd cyllideb arwyddol o £500k o fewn y gyllideb Rheoli Gwastraff ar gyfer gwaith uwchraddio mewn ail ganolfan ailgylchu gwastraff domestig. Rhaid cael y caniatadau angenrheidiol a byddai'n cael ei gyllido o gronfeydd wrth gefn y gwasanaeth a grant. Rhoddir y wybodaeth ddiweddaraf am yr ail gynllun hwn fel sy'n briodol. |
| Cyfanswm | 20,266 | 3,650 | 23,916 | 7,425 | 31 | |

PROSIECT AMGYLCHEDD ARFORDIROL MÔN - PECYN CYLLID CAM 2**Pwrpas**

Ceisio sicrhau cefnogaeth am gymorth arian cyfatebol er mwyn hwyluso gweithrediad Cam 2 o'r Prosiect Amgylchedd Arfordirol Môn.

Cefndir

Mae'r prosiect ERDF (£5.6m) Amgylchedd Arfordirol Môn 2009 - 2013 (ACEP) wedi cyfrannu at ddatblygiad cyflusterau y tir ac mor wedi'u lleoli o amgylch yr Ynys i wneud y gorau o'r manteision economiadd y gall yr arfordir gynnig.

Mae'r prosiect wedi cwblhau gwaith cyfalaf ar draws 14 o safleoedd mewn lleoliadau fel Biwmares, Amlwch, Porth y Wrach, Porth Dafarch, Bae Trearddur, Moel y Don a Rhoscolyn; oedd yn cynnwys gwelliannau i bierau, glanfeydd, llithrfeydd, porthladdoedd, ardaloedd amwynder, toiledau a chyfleusterau meysydd parcio. Llwyddodd Cam 1 o'r prosiect gyflawni'r canlynol:

17.5 o Swyddi wedi eu creu, **200,000+** ymwelwyr (hyd yn hyn); Gwella mynediad i'r arfordir **0.25km**.

Sefyllfa Gyfredol

Mae cyfle wedi codi drwy'r gronfa Cydgyfeiriant ERDF 2007-2013 i barhau gyda'r cynllun. Os yn llwyddiannus, bydd y gronfa (ERDF) yn gallu cynnig uchafswm o 60% o gyllid, bydd rhaid i'r gweddill (Arian Cyfatebol) gael ei ddiogelu o ffynhonnellau eraill. Mae achos busnes wedi ei gynhyrchu ac mae cais am gyllid wedi ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru a'r Swyddfa Gyllid Ewropeaidd.

Cynnig

Cynnig y cais (Cam 2) oedd i ymestyn y prosiect hyd at Fawrth 2015 er mwyn darparu cynlluniau gwella'r arfordir ymhellach o amgylch Ynys Môn. Mae portffolio o gynlluniau wedi cael eu datblygu erbyn Gaeaf 2013 (wedi eu caniatáu) a Gaeaf 2014 (gwaith datblygu pellach yn ofynnol) yng Nghemaes, Rhosneigr, Bae Trearddur, Afon Menai a Phorth Dafarch sydd werth oddeutu **£997k**. Mae tri chynllun ôl-weithredol ym Mhorth Dafarch a Chemaes eisoes wedi'i chwblhau, gyda chyllid gan 'Taith', Llywodraeth Cymru a CSYM gwerth **£354k** hefyd wedi eu cynnwys yn yr achos busnes er mwyn lleihau gofynion gweddill yr arian cyfatebol. Bydd cyfanswm Cam 2 o'r prosiect yn **£1,351k**.

Allbynnau

Bydd Cam 2 yn cyflawni'r allbynnau canlynol:

| Allbynnau | Cyfanswm |
|---|----------|
| Cynlluniau Cyfalaf i ddarparu rhagor o gyfleoedd i bobl (lleol ac ymwelwyr) i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden | 9 |
| Swyddi a grëwyd (Uniongyrchol ac Anuniongyrchol) | 1.5 |
| Mwy o Ymwelwyr i'r Ynys | 70,000+ |
| Unigolion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon dŵr | 600+ |
| Cefnogi digwyddiadau arfordirol | 4 |
| Gwella mynediad i'r arfordir | 1.6km |

Bydd canlyniadau'n cynnwys:

- Cryfhau'r cynnig arfordirol i gychod hwylio, ymwelwyr anabl, chwaraeon dŵr, digwyddiadau;
- Mwy o foddhad a gwell cyfleusterau ar gyfer ymwelwyr a phreswylwyr;
- Hwyluso twf economaidd; a
- Maethu diwylliant Morwrol cryfach.

Crynodeb o'r Cynnig

| | |
|---|--------------------------------|
| Arian Cyfatebol ôl-weithredol | £354,000 (wedi ei gadarnhau) |
| Arian Cyfatebol Llywodraeth Cymru | £110,000 (wedi ei gadarnhau) |
| Arian Cyfatebol a ofynnir gan CSYM | £70,000 (i'w gadarnhau) |
| ERDF (Cyfradd ymyrraeth o 60%) | £817,000 (i'w gadarnhau) |
| Cyfanswm | £1,351,000 |

Cynhyrchwyd yr adroddiad gan Swyddog Datblygu – Prosiect Amgylchedd Arfordirol/Datblygu Economaidd.

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN

| | |
|---|--|
| ADRODDIAD I | PWYLLGOR GWAITH |
| DYDDIAD | 2 RHAGFYR 2013 |
| PWNC | MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW, CHWARTER 2 2013-14 |
| AELOD(AU) PORTFFOLIO | Y CYNGHORYDD HYWEL EIFION JONES |
| SWYDDOG(ION) SY'N ARWAIN | CLARE WILLIAMS |
| SWYDDOG CYSWLLT | BARRY WILLIAMS |
| <p>Natur a rheswm dros adrodd:</p> <p>Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r sefyllfa mewn perthynas â gwariant refeniw'r Cyngor am ail chwarter 2013-14, ynghyd â'r sefyllfa a ragwelir ar gyfer y flwyddyn gyfan, trosolwg o'r arian wrth gefn sydd ar gael ac adolygiad o'r cynnydd fesul gwasanaeth o gyflawni yr arbedion y cytunwyd.</p> | |

A – Rhagarweiniad / Cefndir / Materion

1. Ym mis Mawrth 2013, gosododd y Cyngor gyllideb net gyda gwariant net o £128.8m ar gyfer y gwasanaethau a chyfraniad o £500k i'r balansau cyffredinol, sef cyfanswm o £129.3m i'w gyllido o Incwm y Dreth Gyngor a grantiau cyffredinol.
2. Yn yr adroddiad hwn, nodir perfformiad ariannol gwasanaethau'r Cyngor am y chwe mis cyntaf o'r flwyddyn ariannol a'r sefyllfa a ragwelir ar gyfer y flwyddyn gyfan, gan nodi'r sefyllfa gyffredinol a ffynonellau'r prif amrywiadau.
3. Yn gyffredinol, rhagwelir y bydd gorwariant bychan o £265k ac mae'r amrywiadau sylweddol wedi cael eu hegluro yn yr adroddiad.
4. Roedd y gyllideb ar gyfer 2013-14 yn cynnwys yr arbedion o £2.860m yr oedd eu hangen. Mae'r rhain wedi cael eu hymgorffori yng nghyllidebau unigol y gwasanaethau ac mae cyflawni neu fethiant i gyflawni'r rhain wedi cael ei adlewyrchu yn y tan/gorwariant net a ddangosir
5. Gyda'i gilydd, bydd y newidiadau hyn yn cael effaith ar sefyllfa gyffredinol Cronfa'r Cyngor am y flwyddyn.

B – Ystyriaethau**Balansau Cyffredinol – Sefyllfa ar Ddechrau'r Flwyddyn a Chyfraniadau a Raglennwyd ar gyfer 2013-14**

1. Dywedwyd wrth y Pwyllgor Gwaith, yn ei gyfarfod ar 9 Mehefin 2013, bod y sefyllfa derfynol ar gyfer 2012-13 gryn dipyn yn well na'r disgwyl a bod balans gyffredinol Cronfa'r Cyngor ar ddechrau'r flwyddyn ariannol gyffredol ychydig dros £6m. Ar ôl cwblhau'r archwiliad o'r cyfrifon, mae balans Cronfa'r Cyngor fel yr oedd ar 1 Ebrill 2013 wedi gostwng rhyw ychydig a bellach mae'n £5.9m.

Chwarter 2 – Perfformiad Ariannol fesul Gwasanaeth

2. Mae manylion am y perfformiad ariannol fesul gwasanaeth am chwe mis cyntaf y flwyddyn, a'r canlyniadau a ragwelir ar gyfer pob un wedi eu nodi yn Atodiad A. Yn gyffredinol, rhagwelir y bydd tanwariant net o £235k ar wasanaethau. Ceir crynodeb isod o'r prif amrywiadau.

| Crynodeb o'r Amrywiadau a ragwelir ar gyfer 31.3.14 yn seiliedig ar Wybodaeth Ariannol Chwarter 2 | |
|--|----------------------------------|
| | (Gor)tan wariant £000 |
| Addysg Canolog | 129 |
| Gofal Cymdeithasol | 634 |
| Hamdden a Diwylliant | (26) |
| Priffyrdd | (183) |
| Cynllunio | (180) |
| Gwarchod y Cyhoedd | (108) |
| Eiddo | (272) |
| Budd-daliadau | (310) |
| Eraill | 51 |
| | (265) |

3. Eglurhad ar y prif amrywiadau

Rhagwelir tanwariant o £129k yn Ch2 ar Addysg Ganolog (tanwariant o £593k yn Ch1)

Y rheswm am y tanwariant yw'r incwm grant ychwanegol a ddisgwyllir ar gyfer addysg ôl-16. Nid oeddid yn disgwyl yr incwm hwn ar adeg gosod y gyllideb ac fe'i cafwyd oherwydd adolygu'r fformiwla grant. Mae'r tanwariant a ragwelwyd wedi gostwng oherwydd addasiad i'r grant a dderbyniwyd ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig - roedd y ffigwr a ddyfynnwyd yn adroddiad chwarter 1 yn rhy uchel.

Tanwariant o £634k ar Ofal Cymdeithasol (Tanwariant o £1.295m yn Ch1)

Mae'r gwasanaeth hwn yn awr yn darogan tanwariant o £634k, sydd yn £1.929m yn well o ffigwr yr adroddwyd arno yn ystod chwarter 1. Mae'r gwelliant wedi digwydd oherwydd adolygiad manylach o'r rhagamcanion gwariant yn yr ail chwarter.

Caiff y tanwariant a ragwelir ei grynhoi yn y tabl isod

| | Q2 £'000 | Q1 £'000 | Symudiad £'000 |
|----------------------------------|---------------------|---------------------|---------------------------|
| Rheoli a Gwasanaethau Cefnogaeth | 42 | 0 | 42 |
| Plant a Theuluoedd | 530 | 0 | 530 |
| Gwasanaethau ar gyfer yr Henoed | 62 | (1,295) | 1,357 |
| Cyfanswm | 634 | (1,295) | 1,929 |

Gellir priodoli'r gwelliant sylweddol yn y sefyllfa gyllidebol a ragwelwyd i'r rhesymau isod yn bennaf:

Plant a Theuluoedd

Gostyngiadau yn y gwariant ar Blant y Gofelir Amdanynt (£267k), Gwasanaethau i Blant a Theuluoedd (£237k), Cefnogaeth i Deuluoedd (£38k), Plant gydag Anableddau (£37k) a'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid (£25k). Cafwyd gorwariant sy'n gwrthbwyso hyn yn y maes Comisiynu a Gwaith Cymdeithasol (£17k) a'r Prosiect Potensial (£52k), er fod y gorwariant diwethaf yma wedi ei niwtraleiddio gan y cyllideb diwedd-y-flwyddyn drwy'r Gronfa Cymdeithasol Ewropeaidd.

Gofal Cymdeithasol i Oedolion

Gostyngiadau yn y gwariant a ragwelwyd ar Wasanaethau i'r Henoed (£1.007m), Oedolion a chanddynt Anableddau Corfforol (£69k) a llai o wariant ar Gofal Môn, uned ddarparu'r Cyngor (£402k) oherwydd swyddi gweigion ac absenoldeb salwch. Cafwyd gorwariant sy'n gwrthbwyso hyn yn y meysydd Oedolion a chanddynt Anableddau Dysgu (£66k) ac Oedolion gydag Anghenion Iechyd Meddwl (£55k) a hynny oherwydd cynnydd yn nifer y cleientiaid a'u hanghenion gofal.

Mae'r tanwariant a ragwelir yn rhagdybio:

- cyflawnir yr holl arbedion effeithlonrwydd i darged ac o fewn yr amserlen;
- gellir cwrdd a'r pwysau gwaelodol yng ngwasanaethau iechyd meddwl, gofal nyrsio ac anabledau dysgu;
- ni cheir y pwysau tymhorol a all godi yn misoedd y gaeaf ac o ganlyniad i'r pwysau'n effeithio'r Bwrdd Iechyd Leol, effaith difrifol ar y galw am wasanaethau.

Mae cyllidebau Gofal Cymdeithasol yn eu hanfod yn anwadal ac efallai na fydd modd cynnal y gwelliant hwn am weddill y flwyddyn. O'r herwydd, bydd y cyllidebau hyn yn cael eu monitro'n ofalus gan staff Cyllid a staff y gwasanaeth yn fisol. Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo i fonitro cynlluniau arbedion y gwasanaeth yn erbyn gwariant gwirioneddol er mwyn sicrhau eu cyflawni erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Hamdden a Diwylliant – Gorwariant o £27k yn Ch2 (gorwariant o £184k yn Ch1)

Mae'r Canolfannau Hamdden bellach yn darogan tanwariant o £50k, gwelliant o £91k o gymharu â chwarter 1 gan dybio y bydd lefelau incwm yn aros fel y maent, £62k o orwariant ar barciau a chyfleusterau awyr agored - £14k yn llai na'r rhagamcan yn chwarter 1, tanwariant o £30k ar lyfrgelloedd a thanwariant o £30k ar Wasanaethau Gweinyddol y Gwasanaeth Hamdden, yn bennaf oherwydd swyddi gweigion. Nid yw rhagolygon Chwarter 1 o ran y gorwariant o £55k ar y Cwrs Golf a gorwariant o £32k ar yr Archifau wedi newid. Mae'r adolygiad llawn o'r gweithgareddau Hamdden a Diwylliant y cyfeirir ato yn yr adroddiad ar chwarter 1 yn mynd rhagddo ond, fel y gwelir, mae'r adolygiad ar hyn o bryd yn darogan y bydd y sefyllfa'n llawer iawn gwell ar ddiwedd y flwyddyn.

Priffyrdd – gorwariant o £183k (gorwariant o £112k yn Ch1)

Ceir y gorwariant oherwydd na fu modd casglu'r incwm y cyllidebwyd ar ei gyfer. Yn seiliedig ar ffigyrau chwarter 2, bydd y gostyngiad yn yr incwm sy'n cyfrannu at y gorwariant yn digwydd yn Rheoli Datblygu (£75k), Ffioedd Rheoli a Dylunio ar gyfer cynnal priffyrdd (£28k) a Gwaith ar Strydoedd (£50k). Hefyd, mae gostyngiad yn yr incwm y cyllidebwyd ar ei gyfer (£30k) wedi ei nodi yn y grantiau Diogelwch Ffyrdd yn chwarter 2.

Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd – gorwariant o £288k (gorwariant o £98k yn Ch1)

Mae'r gorwariant wedi digwydd mewn nifer o feysydd:

Cynllunio

Rhagwelir diffyg o £60k yn yr Incwm o Ffioedd Rheoli Adeiladu;

Y gostyngiad yn y grant gan Planning Delivery Wales – defnyddiwyd £34k i gyllido 2 swydd;

Rhagwelir gorwariant o £32k ar gostau staffio yn yr Adain Rheoli Adeiladu, Gweithredu a Chadwraeth a Bioamrywiaeth

Rhagwelir diffyg o ran yr incwm o faes parcio Parc y Morglawdd yn y Gyllideb Cefn Gwlad a'r Arfordir.

Gwarchod y Cyhoedd

Rhagwelir diffyg o £32k yn yr incwm Iechyd yr Amgylchedd, £10k Rheoli Pla a £32k Trwyddedau.

Rhagwelir gorwariant pellach o £34k yn erbyn cyllideb Marchnad Llangefni yn dilyn trosglwyddo cyfrifoldeb i Gwmni Menter Gymdeithasol Llangefni. Bydd angen addasu'r gyllideb ar gyfer y gweithgaredd hwn i adlewyrchu'r newid hwn yn 2013-14 a'r blynyddoedd wedyn.

Fodd bynnag, rhagwelir y bydd y gyllideb yn y maes gwasanaeth yma yn cydbwysu erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Eiddo - Gorwariant o £272k (gorwariant o £159k yn Ch1)

Yn ychwanegol at y diffyg mewn incwm yr adroddwyd arno yn chwarter 1, nodwyd gorwariant pellach oherwydd na fu modd gwneud arbedion (£45k) yn yr Adain Gweinyddu Eiddo a nodwyd cynnydd o £66k yng nghostau Adeiladau Gweinyddol.

Budd-daliadau a roddwyd – gorwariant o £310k (£230k Y Dreth Gyngor; £80k Taliadau Tai Dewisol)

O Ebrill 2013, disodlwyd Budd-daliadau'r Dreth Gyngor gan y Cynllun Lleol Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Hyd at fis Ebrill 2013, roedd y budd-daliadau treth gyngor y bu modd eu hadennill gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (AGP) yn cyfateb 100% mwy neu lai i'r gwariant ar fudd-daliadau. O Ebrill 2013, rhoddwyd i'r Gyngor grant penodol a oedd yn seiliedig ar y baich achosion ar gyfartaledd dros gyfnod o dair blynedd, sef 2009/10 - 2011/12, gan Lywodraeth Cymru.

Nid yw'r grant gan Lywodraeth Cymru yn ddigon i ddarparu ar gyfer y cynnydd yn y baich achosion a'r ymrwymiad cysylltiedig o ran cymorth gyda'r Dreth Gyngor am y flwyddyn. Rhagwelir y bydd y diffyg o £230k, £20k yn llai na'r swm a ragwelwyd yn Chwarter 1.

Nid oes unrhyw ddarpariaeth yng nghyllideb 2013/14 ar gyfer taliadau tai dewisol (TTD) sy'n uwch na'r grant gan yr AGP. Oherwydd y newidiadau i'r system les a gyflwynwyd yn Ebrill 2013 h.y. sef y cymhorthdal ystafell sbâr ("treth ystafell wely"), y cap ar fudd-daliadau, diwygiadau parhaus i'r lwfans tai lleol a chyfyngu cynnydd blynyddol mewn budd-daliadau i 1%, rhagwelir y bydd y TTD cyfredol £80k yn uwch na'r grant AGP o £136k.

Mae'n bosibl y gallai hawliadau am fudd-dal gynyddu neu ostwng erbyn diwedd y flwyddyn ariannol ac mae hyn yn anodd i'w ddarogan oherwydd bydd yn dibynnu ar yr amgylchedd cymdeithasol ac economaidd yn y dyfodol, demograffi, mewnfudo a'r rhagolygon o ran gwaith yn Ynys Môn.

Cyllid Corfforaethol

Mae'r gyllideb Cyllid Corfforaethol wedi gostwng gan £343k yn dilyn gwyro neu drosglwyddo arian o'r gronfa wrth gefn gorfforaethol i gyllidebau gwasanaeth i ddarparu adnoddau ar gyfer:

- Gofal Cymdeithasol i Oedolion – Darpariaeth chwyddiant ar gyfer cartrefi gofal preswyl - £158k;
- Tai – Diwygio Lles - £45k;
- Addysg - Bwrdd Adfer - £140k.

Tanwariant net arall £51k (tanwariant o £346k yn Ch1)

Mae hwn yn ymwneud â'r amrediad o wasanaethau nad yw'r amrywiad a ragwelir wedi ei amlygu yn Atodiad A.

Y prif rai yw:

- Gwastraff - tanwariant o £84k. Mae'r tanwariant hwn wedi gostwng o gymharu â'r arbediad o £150k yr adroddwyd arno yn chwarter 1 ac mae i'w briodoli'n bennaf i'r arbedion o ran costau tirlenwi a'r incwm o reoli nwy yn safle Penhesgyn, sef £116k, wedi'i wrthbwysu gan y rhent o £34k ar gyfer cyfleuster storio yn Bryn Sunsur ar gyfer biniau nad oes darpariaeth ar ei gyfer yn y gyllideb.
- TGCh -Tanwariant o £130k. I'w briodoli i arbedion staffio.
- Gwasanaethau Cyfreithiol a Phwyllgorau – tanwariant o £105k ar swyddi gweigion o fewn Gwasanaethau Cyfreithiol, seondiad staff o fewn Sgriwtini ac arbedion yng nghostau gwasanaethau etholidau a phwyllgorau. Mae'r tanwariant yma'n adlewyrchu'r sefyllfa canol-y-flwyddyn y gwasanaeth. Fodd bynnag, defnyddir y tanwariant yn Gwasanaethau Cyfreithiol i brynu mewn Cefnogaeth Gwyboeth Corfforaethol i helpu gyda'r Prosiect Llywodraethu Gwybodaeth ac i brynu mewn cefnogaeth i roi sylw i'r gwaith gweinyddiol ar weithredoedd teitl a amlygwyd gan archwiliad. Disgwylir y defnyddir y tanwariant yn y gyllideb Etholidau erbyn diwedd y flwyddyn.
- Cyllid – gorwariant o £123k yn bennaf oherwydd costau staffio ac ymgynghorwyr.
- Rheolaeth Gorfforaethol - £50k o orwariant yn codi oherwydd y posibilrwydd na fydd modd gwneud arbedion corfforaethol.
- Adnoddau Dynol - £23k o orwariant yn bennaf oherwydd tan-gyllido swydd y Pennaeth Proffesiwn yn dilyn yr Adolygiad o Uwch Reolwyr.
- Polisi – gorwariant o £71k yn bennaf oherwydd cynnydd mewn cyflogau - £18k, ffioedd ymgynghori/cyfreithiol - £21k a chodiadau eraill mewn costau rhedeg - £32k.

4. Yn y rhan 'Cyllidwyd gan' yn Atodiad A, dangosir y Dreth Gyngor ar gyfradd wastad yn erbyn y gyllideb. Mae rhai arwyddion y bydd rhywfaint o or-gyflawni o ran incwm ond nid yw'r arwyddion hyn yn ddigon cadarn eto i'w hymgorffori yn y rhagamcan o'r canlyniadau.

| C - Goblygiadau ac Effeithiau | |
|--------------------------------------|--|
| 1 | Cyllid / Adran 151 |
| 2 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro |
| 3 | Adnoddau Dynol |
| 4 | Gwasanaethau Eiddo (gweler nodiadau – dogfen ar wahân) |
| 5 | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) |
| 6 | Cydraddoldeb (gweler nodiadau – dogfen ar wahân) |
| 7 | Gwrthdlodi a Chymdeithasol (gweler nodiadau – dogfen ar wahân) |
| 8 | Cyfathrebu (gweler nodiadau – dogfen ar wahân) |
| 9 | Ymgynghori (gweler nodiadau – dogfen ar wahân) |
| 10 | Economaidd |
| 11 | Amgylcheddol (gweler nodiadau – dogfen ar wahân) |
| 12 | Trosedd ac Anrhefn (gweler nodiadau – dogfen ar wahân) |
| 13 | Cytundeb Canlyniadau |

CH – Crynodeb

Yn yr adroddiad, ceir gwybodaeth ynghylch perfformiad ariannol gwasanaethau'r Cyngor yn ail chwarter 2013-14 ac, yn seiliedig ar hyn, nodir y sefyllfa a ragwelir ar gyfer diwedd y flwyddyn – sef gorwariant o £265k.

Ym mharagraff B2, ceir dadansoddiad o'r prif feysydd lle gwelwyd amrywiadau mawr o ran y gyllideb a cheir y rhesymau am yr amrywiadau hyn ym mharagraff B3.

D – Argymhelliad

Argymhellir:

- Bod y sefyllfa mewn perthynas â pherfformiad ariannol hyd yma, y diffyg a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn a'r camau sy'n cael eu cymryd i roddi sylw i hyn, yn cael ei nodi a'i monitro.

Enw Awdur yr adroddiad: Clare Williams, Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog A151

| |
|---|
| Atodiadau: |
| Atodiad A – Perfformiad Ariannol a Chanlyniadau a Ragwelir fesul Gwasanaeth 2013/14 |
| Papurau cefndir |
| Cyllideb 2013/14 Adroddiad Monitro'r Gyllideb – Chwarter 1 2013/14 |

| PERFFOMIAD ARIANNOL EBRILL - MEIDI 2013 A CHANLYNIADAU RHAGDYBIEDIG 2013-14 | | | | | | |
|---|--|---------------|-------------------|-----------------------------|------------------------------------|--|
| Cyfadrn | Gwirioneddol + Ymrwymadau Ch2 | Proffil Ch2 | Amrywiad Ch Q2 | Canlyniadau Rhagdybiedig | Cyllideb ar gyfer y Flwyddyn | Amrywiad Rhagdybiedig ar gyfer y Flwyddyn |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Dysgu Gydol Oes | | | | | | |
| Cyllideb Ysgolion sydd wedi ei datganoli | 20,141 | 21,122 | 981 | 43,354 | 43,354 | 0 |
| Addysg Canolog | 417 | 2,921 | 2,504 | 7,975 | 8,104 | 129 |
| | 20,558 | 24,043 | 3,485 | 51,329 | 51,458 | 129 |
| Cymunedau | | | | | | |
| Gofal Cymdeithasol | 13,330 | 13,509 | 179 | 29,597 | 30,231 | 634 |
| Hamdden a Diwylliant | 1,210 | 1,717 | 507 | 4,740 | 4,713 | -27 |
| Tai | 577 | 771 | 194 | 1,290 | 1,291 | 1 |
| | 15,117 | 15,997 | 880 | 35,627 | 36,235 | 608 |
| Datblygiad Cynaliadwy | | | | | | |
| Datblygu Economaidd | 1,095 | 671 | -424 | 1,602 | 1,602 | 0 |
| Y Ffilyd | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Priffyrdd | 6,108 | 5,481 | -627 | 10,811 | 10,628 | -183 |
| Cynllunio | 539 | 540 | 1 | 1,792 | 1,612 | -180 |
| Gwarchod y Cyhoedd | 732 | 690 | -42 | 1,584 | 1,476 | -108 |
| Eiddo | 796 | 482 | -314 | 1,092 | 820 | -272 |
| Gwaith y mae modd codi amdano | 101 | 129 | 28 | 0 | 0 | 0 |
| Rheoli'r Gyfadrn | 29 | 28 | -1 | 57 | 57 | 0 |
| Gwastraff | 3,864 | 4,048 | 184 | 8,503 | 8,587 | 84 |
| | 13,264 | 12,069 | -1,195 | 25,441 | 24,782 | -659 |
| Dirprwy Brif Weithredwr | | | | | | |
| Corfforaethol - Gwasanaethau Eraill | 668 | 686 | 18 | 2,016 | 2,016 | 0 |
| Costau Corfforaethol a Democrataidd | 415 | 453 | 38 | 2,154 | 2,154 | 0 |
| Rheolaeth Gorfforaethol | 545 | 523 | -22 | 1,035 | 985 | -50 |
| Archwilio | 128 | 113 | -15 | 0 | 0 | 0 |
| Cyllid - ac eithrio'r Budd-daliadau a ganiatawyd | 1,400 | 1,392 | -8 | 1,089 | 966 | -123 |
| Cyllid - Budd-daliadau a ganiatawyd | 4,948 | 3,769 | -1,179 | 5,623 | 5,313 | -310 |
| Adnoddau Dynol | 358 | 322 | -36 | 24 | 0 | -24 |
| TGCh | 876 | 885 | 9 | -130 | 0 | 130 |
| Cyfreithol a Gweinyddol | 744 | 784 | 40 | 332 | 437 | 105 |
| Polisi | 384 | 301 | -83 | 71 | 0 | -71 |
| Cyllid Corfforaethol | 2,985 | 2,985 | 0 | 4,907 | 4,907 | 0 |
| | 13,451 | 12,213 | -1,238 | 17,121 | 16,778 | -343 |
| CYFANSWM | 62,390 | 64,322 | 1,932 | 129,518 | 129,253 | -265 |

| CYLLIDWYD GAN | | | | | | |
|--|--|--|--|----------------|----------------|----------|
| Incwm y Dreth Gyngor | | | | 28,023 | 28,023 | 0 |
| Grant Arbennig | | | | 458 | 458 | 0 |
| Grantiau Cytundeb Canlyniadau | | | | 545 | 545 | 0 |
| Grant Cymorth Refeniw | | | | 22,024 | 22,024 | 0 |
| Cronfa'r Dreth Genedlaethol Annomestig | | | | 78,203 | 78,203 | 0 |
| | | | | 129,253 | 129,253 | 0 |

CYSONI Â'R CYNGOR 05-03-13, PAPUR F, TABL B

| | Gwreiddiol | Incwm Ychwanegol o'r Dreth Gyngor | Symud y Grant Cytundeb Canlyniadau i TNSGI | Adolygwyd |
|--|----------------|--|---|----------------|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Anghenion Cyllidebol | 128,492 | 166 | 545 | 129,203 |
| Cymorth Dewisol Trethi | 50 | | | 50 |
| Cyfanswm y Gofynion Cyllido | 128,542 | 166 | 545 | 129,253 |
| Cyllido: | | | | |
| Incwm o'r Dreth Gyngor | 27,857 | 166 | | 28,023 |
| Grant Arbennig | 458 | | | 458 |
| Grant Cytundeb Canlyniadau | 0 | | 545 | 545 |
| Grant Cymorth Refeniw | 22,024 | | | 22,024 |
| Cronfa'r Dreth Genedlaethol Annomestig | 78,203 | | | 78,203 |
| Cyfanswm y Cyllid | 128,542 | 166 | 545 | 129,253 |

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN

| | |
|-----------------------------------|---|
| Pwyllgor: | Pwyllgor Sgriwtini |
| Dyddiad: | 9 Rhagfyr 2013 |
| Aelod Portffolio: | Y Cyngorydd Richard A Dew |
| Cyfarwyddwr Corfforaethol: | Arthur W Owen |
| Teitl: | Strategaeth Feicio Cyngor Sir Ynys Môn |

1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Gofyn i'r Pwyllgor Sgriwtini gymeradwyo Strategaeth Feicio Cyngor Sir Ynys Môn.

2.0 Cefndir

2.1 Oherwydd nifer o faterion, tanlinellwyd yr angen am ddull cydlynol ar draws y Cyngor i sicrhau fod beicio yn dod â'r manteision mwyaf posibl i Ynys Môn. O'r herwydd, mae strategaeth wedi cael ei llunio i roi sylw i'r pwyntiau hyn ac i gynorthwyo Ynys Môn i dyfu'n economaidd, yn iach a chyda gwell amgylchedd.

2.2 Ym mis Tachwedd 2013, cafodd Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 Ganiatâd Brenhinol ac yn ei sgil, daw nifer o swyddogaethau statudol newydd gyda'r nod o annog dulliau teithio llesol i'r gwaith, addysg a chyrchfannau eraill, teithiau a fyddai fel arall yn cael eu gwneud â char.

2.3 Bydd nifer o brosiectau mawr o bosibl yn cael eu datblygu ar draws yr ynys yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf sy'n pwysleisio'r angen am strategaeth er mwyn sicrhau fod yr ynys yn derbyn y manteision etifeddiaeth y dylai cynlluniau o'r fath eu creu.

2.4 Bydd mentrau twristiaeth megis prosiect Ymweld â Môn yn cael eu cynorthwyo gyda strategaeth feicio a fydd o gymorth i dargedu cyllid er mwyn hyrwyddo Ynys Môn fel cyrchfan beicio.

3.0 Argymhellion

- 3.1 Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r Strategaeth Feicio i'w defnyddio fel dogfen arweiniol ar gyfer datblygu cyfleusterau beicio yn Ynys Môn.

Adroddiad gan: Dewi R Williams

Teitl Swydd: Pennaeth Gwasanaeth (Yr Amgylchedd a Gwasanaethau Technegol)

Adran: Datblygiad Cynaliadwy

Dyddiad: 20 Tachwedd 2013

Atodiadau:

Strategaeth Feicio Cyngor Sir Ynys Môn

Papurau Cefndir:

Dim

A photograph of a tree-lined path, likely a park or a residential street, with lush green foliage and a clear path leading into the distance. The text is overlaid on the lower-left portion of the image.

Cyngor Sir Ynys Môn Strategaeth Feicio

Tachwedd 2013

Cynnwys

| | |
|--|----|
| Crynodeb Gweithredol..... | 4 |
| 1. Cyflwyniad..... | 5 |
| 2. Cyd-destun Polisi..... | 5 |
| 2.1 Cenedlaethol..... | 5 |
| 2.2 Rhanbarthol..... | 6 |
| 2.3 Lleol..... | 6 |
| 3. Rhwydwaith Presennol..... | 8 |
| 3.1 Llwybr Beicio Cenedlaethol Sustrans 5..... | 8 |
| 3.2 Llwybr Beicio Cenedlaethol Sustrans 8..... | 9 |
| 3.3 Llwybr Beicio Cenedlaethol Sustrans 566..... | 10 |
| 3.5 Ffyrdd Gwyrdd..... | 12 |
| 3.6 Llwybrau Adar..... | 13 |
| 3.7 Llwybrau Teithio Llesol..... | 14 |
| 3.8 Prosiect Beiciwch Hi Sustrans..... | 15 |
| 3.9 Llwybrau Diogel yn y Gymuned..... | 15 |
| 3.10 Coedwig Niwbwrch..... | 15 |
| 3.11 Beicio Mynydd ar Ynys Môn..... | 15 |
| 3.12 Rhwydwaith beicio presennol sydd wedi ei arwyddo..... | 16 |
| 3.13 Parcio Beiciau..... | 17 |
| 3.14 Hyrwyddo Beicio..... | 17 |
| 3.15 Beicio Diogel..... | 17 |
| 4. Rhwydwaith y Dyfodol..... | 18 |
| 4.1 Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013..... | 18 |
| 4.2 Uwchraddio Llwybrau Presennol..... | 19 |
| 4.3 Llwybrau Newydd..... | 19 |
| 4.4 Llwybrau i'r Dyfodol..... | 20 |
| 4.5 Arwyddion..... | 28 |
| 4.6 Cynnal a Chadw..... | 28 |
| 4.7 Safonau..... | 29 |
| 4.8 Parcio Beiciau..... | 29 |
| 4.9 Hyrwyddo Beicio..... | 30 |
| 4.10 Monitro..... | 30 |

| | |
|---|----|
| 4.11 Marchogwyr | 30 |
| 4.12 Ariannu..... | 31 |
| Atodiad 1 Cyd-destun Polisi | 32 |
| A1.1 Cenedlaethol..... | 32 |
| A1.2 Rhanbarthol | 34 |
| A1.3 Lleol..... | 36 |
| Appendix 2 : Safonau Dylunio ar gyfer Beiciau | 39 |

Ffigurau

| | |
|--|-------------------------------------|
| Ffigwr 1 – Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol 5..... | 8 |
| Ffigwr 2 – Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol 8..... | Error! Bookmark not defined. |
| Ffigwr 3 – Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol 566..... | 10 |
| Ffigwr 4 – Lôn Las Cefni (RhBC/NCN 566) | 11 |
| Ffigwr 5 – Ffyrdd Gwyrdd..... | 12 |
| Ffigwr 6 – Llwybrau Adar | 13 |
| Ffigwr 8 – Coedwig Niwbwrch | 15 |
| Ffigwr 9 – Rhwydwaith Presennol sydd wedi ei Arwyddo | 16 |
| Ffigwr 10 – Llwybr Coridor yr A5 | 21 |
| Ffigwr 11 – Llwybr Coridor yr A5025 | 22 |
| Ffigwr 12 – Ardaloedd Menter..... | 23 |
| Ffigwr 13 – Prosiectau Mawr | 24 |
| Ffigwr 14 – Lein Amlwch | 25 |
| Ffigwr 15 – Rhwydwaith Arfaethedig..... | 27 |

Crynodeb Gweithredol

Cynhyrchwyd Strategaeth Feicio Cyngor Sir Ynys Môn er mwyn cydgysylltu ymagwedd y Cyngor at feicio, ac i sicrhau bod y Cyngor yn ymwybodol o anghenion Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 ac yn medru ei bodloni ynghyd ag unrhyw ddeddfwriaeth arall sy'n effeithio ar feicio.

Adolygwyd y ddarpariaeth feicio bresennol a rhoddwyd ystyriaeth i ddarpariaeth bosibl i'r dyfodol. Mae hyn yn cynnwys llwybrau sydd ar y ffordd a'r rhai oddi ar y ffordd yn ogystal â darpariaethau eraill cysylltiol megis parcio beiciau. Bydd Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn ymrwmo'r Cyngor i wella llwybrau a chyfleusterau teithio presennol ac ychwanegu atynt.

Bydd y Strategaeth hon yn rhoi'r sail ar gyfer cynllun cyflawni a fydd yn amlygu'r ffordd yr hoffai'r Cyngor weld y rhwydwaith beicio'n datblygu ar Ynys Môn, yn ogystal â sicrhau y bydd yr adnoddau sydd ar gael yn cael eu targedu'n effeithiol. Ar hyn o bryd mae'r rhan helaeth o'r llwybrau beiciau a arwyddir ar yr ynys yn bodoli ar y ffyrdd ond mae gwaith dichonoldeb a chynllunio yn cael ei gwblhau ar hyn o bryd gyda'r bwriad o fanteisio ar unrhyw arian sydd ar gael i ddarparu rhagor o lwybrau oddi ar y ffordd, i'w defnyddio fel modd o deithio ac fel llwybrau hamdden.

Lle ceir cynlluniau i ddatblygu (yn enwedig datblygiadau mawr neu'r rhai sy'n gysylltiedig ag ardaloedd menter) ar yr ynys, rhaid ystyried opsiynau yn ymwneud â thrafnidiaeth gynaliadwy. Rhaid ystyried addasu asedau sy'n bodoli eisoes er mwyn darparu cyfleusterau safonol i'w rhannu.

Mae'r strategaeth yn rhoi manylion ynglŷn â beth ddylai'r Cyngor ei wneud o safbwynt arwyddion, hyrwyddo, cynnal a chadw a'r safonau i'w defnyddio wrth uwchraddio llwybrau presennol yn ogystal â chyflwyno rhai newydd.

Bydd gweithredu'r strategaeth yn effeithiol yn sicrhau:

- Buddion amgylcheddol (trwy'r defnydd o drafnidiaeth gynaliadwy)
- Buddion iechyd a lles
- Buddion hamdden
- Delwedd ac argraff well o Ynys Môn fel cyrchfan beicio
- Buddion economaidd

1. Cyflwyniad

Datblygwyd y strategaeth hon er mwyn cydgyssylltu gwaith ar draws Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM) ar lwybrau beicio, seilwaith beicio ac annog y defnydd o feiciau. Bydd hefyd o gymorth gyda cheisiadau am arian gan fentrau sy'n cydfynd â gweledigaeth y Cyngor ar gyfer beicio ar yr ynys. Ei nod yw rhoi darlun gwell o'r hyn y ceisia CSYM ei gyflawni ar gyfer beicio ar yr ynys.

Bydd y Cyngor yn ceisio gwneud y defnydd gorau o'r cyfleoedd i ddatblygu'r rhwydwaith beicio ar yr Ynys er budd pobl leol ac ymwelwyr gyda'i gilydd i hybu newid moddol tuag at deithio cynaliadwy ac ar gyfer dibenion hamdden. Bydd hyn o gymorth wrth wella iechyd a ffitrwydd y boblogaeth, i leihau nwyon tŷ gwyr drwy drafndiaeth a'r nifer o gerbydau motor ar ffyrdd yr ynys. Bydd o gymorth i'r cynnig twristiaeth hefyd gan annog pobl i neidio ar gefn beic i ymweld ag atyniadau, yn ogystal â denu pobl i'r ynys i feicio yn ystod eu gwyliau yma. Bydd y Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 newydd yn sicrhau hefyd y bydd y Cyngor yn ei gwneud hi'n haws i bobl gael mynediad gwell at wybodaeth ynglŷn â'n llwybrau a'n cyfleusterau.

Bydd y Strategaeth yn cydfynd â nod ac amcanion CSYM yn enwedig y rhai sy'n adnabod Ynys Môn fell lle:

- sydd ag economi wledig ffyniannus
- y gall pobl fod yn iach ac yn ddiogel
- y gall pobl fwynhau, diogelu a gwella eu hamgylchedd adeiledig a naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol

2. Cyd-destun Polisi

Adolygiad o'r dogfennau polisi sydd, hyd yma, wedi cael dylanwad ar feicio ar Ynys Môn. Ceir rhagor o wybodaeth am y dogfennau hyn yn Atodiad 1.

2.1 Cenedlaethol

2.1.1 Strategaeth Drafndiaeth Cymru

Mae Strategaeth Drafndiaeth Cymru (2008) (WTS) yn darparu strategaeth trosfwaol ar gyfer holl drafndiaeth Cymru gan gynnwys beicio a theithio cynaliadwy. Dan y WTS daw'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol a'r 4 consortia o Gynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol.

2.1.2 Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol

Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol (2009) (CTC) wedi ei osod dan y WTS a dyma'r modd y mae Llywodraeth Cymru'n cyflawni rhan o'r WTS fel rhan o'i chyfrifoldeb.

2.1.3 Polisi Cynllunio Cymru – Nodyn Cyngor Technegol 18: Trafnidiaeth (2007)

Mae gan y ddogfen gynllunio hon adran ar feicio.

- **6.3** Gallai beicio gymryd lle teithiau car byrrach mewn ardaloedd trefol neu wledig, neu gallai fod yn rhan o daith hwy pan y'i cyfunir â thrafnidiaeth gyhoeddus.
- **6.4** Dylai awdurdodau lleol geisio datblygu rhwydwaith effeithiol o lwybrau beicio, gan gynnwys llwybrau diogel i'r ysgol. Dylai cynlluniau datblygu, canllawiau dylunio, a phrif gynlluniau hyrwyddo beicio (rhagor o fanylion yn Atodiad 1).

2.1.4 Cynllun Gweithredu Cymru ar Gerdded a Beicio 2009-2013

Nod y ddogfen hon yw gwneud y gorau o'r cyfleoedd a gynigir gan gerdded a beicio ac i leihau'r defnydd o gar. Mae'n amlygu'r ffaith bod darparu cyfleusterau cerdded a beicio'n elfen bwysig wrth greu cyfleoedd cyfartal.

2.1.5 Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013

"Mae Bil Teithio Llesol (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wella cyfleusterau a llwybrau i gerddwyr a beicwyr yn barhaus, a pharatoi mapiau sy'n nodi'r llwybrau presennol a'r llwybrau posibl y gallant eu defnyddio yn y dyfodol. Bydd y Bil hefyd yn nodi bod angen i gynlluniau ffyrdd newydd ystyried anghenion cerddwyr a beicwyr yn eu camau dylunio." (Sylw a gymerwyd o wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru.) Derbyniodd y Ddeddf Gydsyniad Brenhinol ar 4 Tachwedd 2013.

2.1.6 Grŵp Hollbleidiol Seneddol ar Feicio y DU – Ymchwiliad "Get Britain Cycling" (2013)

Mae'r Grŵp Hollbleidiol Seneddol ar Feicio wedi cynnal ymchwiliad o'r enw "Get Britain Cycling".

2.2 Rhanbarthol

2.2.1 Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (2009)

Cyhoeddwyd y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (CTRH) gan Taith, Consortia o'r 6 Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru. Mae'n ymdrin â'r cyfnod 2010 – 2015 ac yn cyflawni'r rhan o'r WTS sydd yn gyfrifoldeb yr Awdurdodau Lleol.

2.2.2 Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru: Strategaeth Gerdded a Beicio

Cwblhawyd strategaeth gerdded a beicio rhanbarthol fel rhan o'r broses CTRH, Ei nod yw "annog rhagor o bobl i gerdded neu feicio eu taith, megis mynd i'r gwaith neu i'r ysgol, am dro i'r siop leol, cyfleusterau hamdden ac iechyd ac ar gyfer gweithgareddau hamdden."

2.3 Lleol

2.3.1 Polisi Cynllunio

Mae Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a stopiwyd (CDU) (2005) yn cefnogi'r cynigion sydd yn annog y defnydd, mwynhad a datblygiad llwybrau beicio dynodedig yr Ynys. Bydd datblygiadau newydd a fydd yn cael effaith ddinistriol ar rannau o'r rhwydwaith yn gorfod darparu'n foddhaol ar gyfer newid cwrs y llwybr, ei adfer neu greu llwybr newydd (Polisi TR9).

2.3.2 Strategaeth Feicio Ynys Môn (2000)

Fe'i cynhyrchwyd yn ofynnol gan Gynulliad Cymru law yn llaw â'r cynllun Trafnidiaeth Lleol 2000.

2.3.3 Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (2008 - 2018) (CGHTC)

Er mai hawliau tramwy yw prif ffocws yr CGHTC, mae'n rhoi ystyriaeth i faterion beicio hefyd.

2.3.4 Cynllun Rheoli Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Ynys Môn (AHNE) 2009 – 2014

Mae gan Gynllun Rheoli'r AHNE bolisiau sy'n ymwneud â thrafnidiaeth dan ei Strategaeth ar gyfer Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Ynys Môn. Maent yn cynnwys hyrwyddo mynediad i bawb (lle bo hynny'n briodol) a sicrhau bod rhinweddau arbennig yr AHNE yn cael eu parchu'n llwyr wrth gynllunio, dylunio, darparu a rheoli pob math o gynlluniau trafndiaeth.

2.3.5 Astudiaeth Drafnidiaeth Ynys Môn ar gyfer Datblygiadau Mawr

Yn 2011 comisiynwyd ymgynghorwyr i ddatblygu strategaeth drafnidiaeth ar gyfer yr Ynys i ymdrin ag effaith debygol datblygiadau mawr, gan gynnwys yr effaith ar gerdded a beicio. Ar y pryd mapiwyd y rhwydwaith beicio sylfaenol.

2.3.6 Cynllun Rheoli Cyrchfan (2012 - 2016) (CRHC)

O fewn CRHC Ynys Môn mae rhan 3.3.3 yn trafod datblygiad y rhwydwaith beicio.

“...rhaid cael rhwydwaith clir o lwybrau beicio gan gynnwys:

- Llwybrau cenedlaethol ar draws yr Ynys a llwybr treftadaeth yr A5 arfaethedig
- Llwybr arfordirol
- Cyfres o lwybrau lleol yn cysylltu atyniadau ac aneddiadau, gan adeiladu ar y gwaith sydd wedi ei gwblhau eisoes
- Cefnogaeth ar gyfer y cyfleusterau newydd i logi beiciau

2.3.7 Opsiynau ar gyfer Datblygu Beicio ar Ynys Môn – Papur Gweithio (2012)

Comisiynwyd yr astudiaeth hon gan y prosiect Ymweld â Môn sy'n ceisio gwella'r pecyn twristiaeth ar gyfer Ynys Môn. Mae'r papur yn cynnwys rhestr o 25 o brosiectau posibl a gafodd eu blaenoriaethu wedi hynny i greu rhestr fyrrach o brosiectau sy'n cwrdd â meini prawf sy'n cynnwys effaith economaidd, addasrwydd strategol, hyfywedd a fforddiadwyedd posibl.

2.3.8 Gwella Rhwydwaith Beicio ar y Ffordd ar Ynys Môn – Astudiaeth Ddichonoldeb (2013)


Datblygwyd yr astudiaeth yn dilyn y gwaith a wnaethpwyd ar y papur gweithio uchod ac mae'n ymchwilio'r posibilrwydd o rwydwaith o lwybrau beicio. Byddai'r llwybrau a awgrymir yn cael eu targedu er defnydd twristiaeth a hamdden.

3. Rhwydwaith Presennol

Mae'r rhwydwaith beicio presennol ar Ynys Môn yn gymysg o lwybrau ar y ffordd ac oddi ar y ffordd.

3.1 Llwybr Beicio Cenedlaethol Sustrans 5


Llwybr hir sy'n cysylltu Reading a Chaerdybi drwy Rydychen, Banbury, Stratford-upon-Avon, Redditch, Bromsgrove, Birmingham, Walsall, Stafford, Stoke-on-Trent, Caer, Bae Colwyn a Bangor. Ar Ynys Môn mae'r llwybr ar y ffordd gan amlaf yn arwain o'r dwyrain i'r gorllewin ar draws rhan fwy gogleddol o'r ynys. Adnabyddir y rhan rhwng Caer a Chaerdybi hefyd fel llwybr beicio Arfordir Gogledd Cymru. Mae'r rhan helaeth o'r ffordd a ddefnyddir ar Ynys Môn gan llwybr 5 yn rhai gwledig ac anuniongyrchol. Mae felly'n fwy addas ar gyfer beicio hamdden yn hytrach na theithio i'r gwaith, addysg neu unrhyw gyrchfan arall i'w gyrraedd.



Ffigur 1 – Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol 5

3.2 Llwybr Beicio Cenedlaethol Sustrans 8

Yn wybyddus fel Lôn Las Cymru, dyma lwybr wedi ei arwyddo rhwng Caerdydd a Chaergybi drwy Aberhonddu, Llanfair-ym-Muallt, Machynlleth, Porthmadog a Bangor. Wedi iddo groesi Afon Menai dros Bont Menai i'r ynys, mae'r llwybr yn dilyn ffyrdd distaw yn bennaf ar draws yr ynys i Gaergybi, o'r dwyrain i'r gorllewin ar draws rhan fwy deheuol yr ynys. Mae'r rhan rhwng Y Fali a Chaergybi oddi ar y ffordd. Mae Llwybr 8 yn debyg i Lwybr 5 ac yn defnyddio ffyrdd gwledig yn bennaf nad ydynt yn rhai uniongyrchol gan amlaf. Mae felly'n fwy addas ar gyfer beicio hamdden na theithio i'r gwaith, addysg neu unrhyw gyrchfan arall i'w gyrraedd.




Ffigur 2 – Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol 8

3.3 Llwybr Beicio Cenedlaethol Sustrans 566

Mae Llwybr 566 yn rhedeg o ogledd yr ynys i'r de a gellir ei rhannu'n ddwy.

Mae'r rhan ogleddol, a enwir yn Lôn Las Copr, yn llwybr 28 milltir ar y ffordd o Landdeusant i Llanerch-y-medd trwy Lanrhuddlad, Cemaes ac Amlwch (ger y Deyrnas Gopr sy'n rhoi'r enw i'r llwybr). Drwy ddefnyddio rhan fer o RhBC 5 daw llwybr cylch 34 milltir o hyd yn bosibl.


Mae'r rhan ddeheuol rhwng Llanerch-y-medd a Niwbwrch sydd yn rhannol ar y ffordd ac yn rhannol ddilyn rhan oddi ar y ffordd yn Lôn Las Cefni ar fin cael ei harwyddo fel rhan o'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol yn fuan.



Ffigwr 3 – Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol 566

3.4 Lôn Las Cefni

Llwybr llinol 13 milltir o hyd bron yn ddi-draffig ac yn rhan o Lwybr Cylch Cenedlaethol 566. Mae wyneb tarmac ar rannau oddi ar y ffordd o Nant y Pandy, Llangefni i Bont Marcwis ac ar draws y cob ym Malltraeth.




Ffigur 4 - Lôn Las Cefni 566

Mae newidiadau bach i'r holl Lwybrau Beicio Cenedlaethol yn cael eu gwneud yn barhaus ond ni wneir prif newidiadau'n aml. Serch hynny, pan fydd angen newid cyfeiriad llwybr o ganlyniad i ddatblygiadau eraill bydd diogelwch rhannau o'r llwybr yn cael ei ailasesu, neu adeiladir rhannau oddi ar y ffordd newydd a gwneir newidiadau i'r arwyddion ar y ddaear yn ogystal â mapiau gwefan Sustrans. Gwneir newidiadau i daflenni a argraffir pan fydd hi'n amser iddynt gael eu diwygio a'u hailargraffu.

3.5 Ffyrdd Gwyrdd


Mae Ffyrdd Gwyrdd yn brosiect a reolir gan Cadw Cymru'n Daclus ac yn seiliedig ar rwydwaith o lwybrau o amgylch Caergybi ac Ynys Cybi. Beiciau Cybi yw'r cwmni llogi beiciau sy'n gweithio ar Ynys Cybi gyda manau penodol yn cynnig llogi beiciau ar nifer o safleoedd o amgylch Ynys Cybi. Mae pedwar llwybr ar y ffordd wedi'u harwyddo o amgylch Ynys Cybi wed eu cwblhau erbyn yr haf 2013.



Ffigur 5 – Ffyrdd Gwyrdd

3.6 Llwybrau Adar

Mae'r Llwybrau Adar (Nico, Telor, Giach, Hebog) yn llwybrau cylchol ar y ffordd a ddatblygwyd gan Menter Môn tua 1998. Lleolir y llwybrau hyn ar amryw o leoliadau o amgylch yr ynys, ac yn cwmpasu tirweddau amrywiol. Mae rhai o'r llwybrau beicio teithiol hyn yn croesdorri'r llwybrau beicio cenedlaethol. Mae rhai o'r arwyddion wedi diflannu, mewn cyflwr gwael neu'n pwyntio i'r cyfeiriad anghywir. Nid yw'r arwyddion hyn yn cael eu cynnal ar hyn o bryd gan yr Awdurdod Prifffyrdd.




Ffigur 6 – Llwybrau Adar

3.7 Llwybr Beicio Cenedlaethol Sustrans

Yn ogystal â'r cynlluniau uchod mae llwybrau teithio llesol eraill wedi eu cwblhau drwy ddefnyddio Grant Trafnidiaeth a Grant Consortia Trafnidiaeth Ranbarthol dros y blynyddoedd diwethaf.

- Llwybr oddi ar y ffordd yn bennaf rhwng Porthaethwy a Llanfairpwll gyda'r rhan helaeth ohono wedi ei ymgorffori i mewn i RhBC 8. Gosodwyd cyfleusterau parcio beiciau yn y cyfleuster Parcio a Theithio / Rhannu ar yr A5025 sydd ar y llwybr. Mae rhai llwybrau troed a rennir ym Mhorthaethwy sy'n cysylltu â'r llwybrau hirach.
- Mae Lôn Las Cefni (RhBC 566) yn arwain drwy ganol Llangefni, yn rhannol ar y ffordd ac oddi ar y ffordd. Mae rhai llwybrau troed a rennir yn Llangefni sy'n cysylltu Ysgol Corn Hir a'r Ysgol Gyfun / Canolfan Hamdden Plas Arthur.
- Mae RhBC 5 a 8 yn arwain drwy Gaergybi, yn rhannol ar y ffordd ac oddi ar y ffordd. Rhoddwyd llwybrau troed eraill a rennir yng Nghaergybi, rhai ohonynt yn cysylltu â Llwybrau Beicio Cenedlaethol.



Ffigur 7 – Llwybrau oddi ar y ffordd presennol

3.8 Prosiect Beiciwch Hi Sustrans


Bu prosiect Beiciwch Hi Sustrans yn weithredol ar yr Ynys ers mis Awst 2011 ac yn cydweithio â thua 13 o ysgolion ar Ynys Môn yn ogystal â dwy ym Mangor, Gwynedd. Mae'r swyddog Beiciwch Hi yn gweithio gyda disgyblion, athrawon a rhieni i annog plant i feicio i'r ysgol yn ogystal â beicio'n amlach yn eu bywydau beunyddiol. Dangosodd canlyniadau monitro 2012 bod y nifer y plant sy'n beicio i'r ysgol wedi treblu, mewn ysgolion sy'n rhan o fenter Beiciwch Hi. Mae'r swyddog Beiciwch Hi yn gweithio o fewn y Cyngor ac yn cydweithio'n agos â swyddogion o'r adrannau Trafnidiaeth a Rhwydwaith a chyda swyddogion Datblygu Chwaraeon y Cyngor.

3.9 Llwybrau Diogel yn y Gymuned

Mae cynlluniau Llwybrau Diogel yn y Gymuned (Llwybrau Diogel i Ysgolion yn flaenrol) wedi gwella'r cysylltiadau cerdded a beicio gydag amryw o gymunedau ar Ynys Môn bob blwyddyn ers 2004. Ar hyn o bryd (2013/14) mae gwaith yn cael ei wneud yng Nghaergybi gan gynnwys rhan newydd llwybr a rennir yn Kingsland sydd hefyd yn rhan o'r rhwydwaith Ffyrdd Gwyrdd.

3.10 Coedwig Niwbwrch

Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru rwydwaith o lwybrau oddi ar y ffordd yng Nghoedwig Niwbwrch.




Ffigur 8 – Coedwig Niwbwrch

3.11 Beicio Mynydd ar Ynys Môn

Mae Coed Môr yn gyfleuster beicio mynydd bach a sefydlwyd yn ddiweddar ger Pont Britannia.

3.12 Rhwydwaith Beicio Presennol sydd wedi ei Arwyddo

I grynhoi, dangosir y rhwydwaith beicio presennol sydd wedi ei arwyddo gan gynnwys y llwybrau cylchol cenedlaethol (5,8,566), y llwybrau ‘adar’, ffyrdd gwyrdd a chysylltiadau byr eraill, yn ffigur 9.



Ffigur 9 – Rhwydwaith Presennol sydd wedi ei Arwyddo

3.13 Parcio Beiciau

Ceir cyfleuster parcio mewn amryw o leoliadau ar yr ynys. Nid yw'r rhain wedi'u mapio'n ffurfiol. Mae tua 72% o ysgolion yn darparu offer parcio beiciau i ddisgyblion. Mae cyfleusterau parcio yn bodoli hefyd mewn nifer o leoliadau yn nhrefi Llangefni, Porthaethwy, Llanfairpwll, Biwmares a Chaergybi.

3.14 Hyrwyddo Beicio

Gwneir peth gwaith hyrwyddo beicio i dwristiaid ar wefan Croeso Môn. Ar hyn o bryd mae'r wefan yn hyrwyddo'r llwybrau beicio cenedlaethol, y llwybrau adar a Lôn Las Cefni. Mae Cadw Cymru'n Daclus wedi cynhyrchu taflen a gwybodaeth ar wefan ar gyfer y llwybrau Ffyrdd Gwyrdd ar Ynys Cybi yn ogystal â'r busnes llogi beiciau Beiciau Cybi.

Mae digwyddiadau wedi eu cynnal i amlygu Ynys Môn fel cyrchfan ar gyfer beicio gan gynnwys y Tour de Môn llwyddiannus, a gynhaliwyd ym mis Medi 2013 am y tro cyntaf a'r gobaith yw y daw'n ddigwyddiad blynyddol, ac felly hefyd y triathlon Sandman. Mae gŵyl Awyr Agored Ynys Môn a gynhelir ym mis Mai bob blwyddyn fel arfer, hefyd yn hyrwyddo teithiau beicio.

Mae nifer o glybiau beicio ar yr ynys sy'n annog pobl i feicio ar Ynys Môn gan gynnwys Clwb Rasio Mona, Clwb Cefni a Chlwb Cybi.

3.15 Beicio Diogel

Mae cynnig addysg, hyfforddiant a chyhoeddusrwydd beicio yn faterion parhaus gan y Cyngor. Cynigir hyfforddiant ar feicio i ysgolion cynradd a chynhaliwyd ymgyrch yn ddiweddar gan y Cyngor i berswadio gyrrwyr i gadw 1.5 metr yn glir o feicwyr wrth eu pasio.

4. Rhwydwaith y Dyfodol

4.1 Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013

Bydd Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn rym sylweddol wrth annog datblygiad beicio (a cherdded) yn y dyfodol ar Ynys Môn a ledled Cymru. Serch hynny mae'r ddeddf yn targedu 'teithiau llesol' a ddiffinir fel "taith a wneir i'r gwaith neu oddi yno neu i leoliad addysgiadol neu er mwyn cael mynediad at wasanaethau neu gyfleusterau iechyd, hamdden neu eraill." Mae'r rhan helaeth o'r llwybrau sydd wedi eu harwyddo ar hyn o bryd ar Ynys Môn yn llwybrau hamdden ar y ffordd ac mae Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn ceisio cynyddu'r nifer o bobl sy'n cerdded a beicio am resymau ar wahân i hamddena.

Ar hyn o bryd mae'r Ddeddf yn datgan "Rhaid i bob awdurdod lleol baratoi map o'r llwybrau presennol" sydd "mewn perthynas ag awdurdod lleol yn golygu map sy'n dangos llwybrau llesol a chyfleusterau cysylltiol yn ardal yr awdurdod lleol". (Mae hwn yn fap gwahanol i'r llwybrau / teithiau beicio sydd wedi eu harwyddo presennol sydd gennym.) Rhaid hefyd cydymffurfio â'r safonau a nodir yn y canllaw a roddir gan Weinidogion Cymru. Rhaid adolygu a diwygio'r map yn barhaus.

Yn ogystal, rhaid i bob awdurdod lleol "baratoi map integredig yn dangos y llwybrau teithio llesol newydd a chyfleusterau cysylltiol a'r gwelliannau a wnaed i lwybrau teithio presennol a chyfleusterau cysylltiol y mae'r awdurdod lleol yn eu hystyried yn angenrheidiol i ddatblygu neu wella rhwydwaith integredig o lwybrau teithio llesol a chyfleusterau cysylltiol mewn lleoliadau dynodedig yn ei ardal."

Rhaid cyhoeddi'r ddau fap unwaith y cânt eu cymeradwyo.

Gellir nodi lleoliadau llwybrau a chyfleusterau cysylltiol mewn canllawiau drwy gyfeirio at

- ddwysedd poblogaeth
- maint
- agosrwydd at leoliadau â dwysedd poblogaeth uchel yn fwy na maint penodol
- safle rhwng lleoliadau o'r fath
- agosrwydd at wasanaethau a chyfleusterau cymunedol
- y posibilrwydd o gael rhesymau eraill dros fod yn lleoliad lle ceir mwy o deithio llesol gan gerddwyr a beicwyr.

Gall rhai o'r ffactorau hyn fod yn heriol ar Ynys Môn oherwydd ei thirwedd wledig a'r pellter i'w deithio i gyrraedd cyrchfannau a fyddai'n gymwys fel 'teithiau llesol'.

Rhaid i awdurdodau lleol hefyd fod "mor ymarferol â phosibl, gymryd camau rhesymol i wella'r ddarpariaeth ar gyfer cerddwyr a beicwyr" wrth adeiladu priffyrdd a'u gwella.

Ymhellach "bob blwyddyn, rhaid i bob awdurdod lleol sicrhau – llwybrau teithio llesol newydd a chyfleusterau cysylltiol, a gwelliannau i lwybrau teithio llesol presennol a chyfleusterau cysylltiol yn ei ardal."

4.2 Uwchraddio Llwybrau Presennol

Llwybrau Adar Menter Môn.

Cafodd yr arwyddion eu gosod ar y llwybrau hyn tua 1998 er na dderbyniwyd y cyfrifoldeb am eu cynnal gan yr Awdurdod Priffyrdd. Gan fod rhai o'r arwyddion wedi diflannu, mewn cyflwr gwael neu'n cyfeirio pobl i'r cyfeiriad anghywir, mae cyfle i adolygu'r llwybrau. Dylid eu hasesu o ran diogelwch yn ogystal â gofyn a ydynt yn llwybrau y mae pobl yn dymuno eu defnyddio ac yn cysylltu â chyrchfannau priodol. Dylid eu hadolygu yn unol â'r amcanion a osodwyd yn yr astudiaeth ddichonoldeb "Gwella Rhwydwaith Llwybrau Beicio sydd ar y Ffordd yn Ynys Môn"

Yn y cyfamser bydd Menter Môn yn adnewyddu'r arwyddion colledig er mwyn i'r llwybrau fod yn weithredol ar gyfer y ddau dymor nesaf – 2014 a 2015. Mae Menter Môn yn ceisio cael arian hefyd i dalu am nifer fach o daflenni ar gyfer y pedwar llwybr i bara dros y ddau dymor hyn. Bydd hyn yn galluogi digon o amser i ddatblygu'r llwybrau i'r dyfodol heb golli cyfleoedd i ddefnyddio cwrs y llwybrau presennol yn y cyfamser.

4.3 Llwybrau Newydd

Bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn datblygu llwybrau oddi ar y ffordd newydd ar hyd coridorau a amlygwyd sydd yn cydfynd â Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 a'r agenda dwristiaeth. Bydd llwybrau sydd yn llwybrau teithio llesol hefyd yn debygol o gael eu defnyddio gan dwristiaid, ond efallai na fydd gwir llwybrau hamdden yn y manau cywir ar gyfer teithio llesol felly bydd angen targedu arian yn ofalus.

I gydymffurfio â Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 bydd Ynys Môn yn anelu at:

- Ddatblygu gwell rhwydwaith o lwybrau cerdded a beicio:
 - i'r prif safleoedd o gyflogaeth a chanolfannau manwerthu ar yr Ynys
 - i'r gorsafoedd rheilffordd a chyfnewidfeydd trafndiaeth gyhoeddus eraill
- Parhau i weithio gyda Chyngor Gwynedd ar lwybrau sy'n croesi'r ddwy ardal dros bontydd Afon Menai.
- Parhau i ddatblygu cynlluniau Llwybrau Diogel mewn Cymunedau yn unol â chanllaw Llywodraeth Cymru.
- Gwneud defnydd o'r broses gynllunio i wella seilwaith trafndiaeth ar gyfer cerddwyr a beicwyr
- Ystyried anghenion yr holl ddefnyddwyr wrth ddatblygu a dylunio cyfleusterau cerdded a beicio drwy ymgynghori â grwpiau lleol. Bydd llwybrau cerdded a beicio'n ystyried anghenion pobl anabl.
- Cynnal archwiliadau awdit cerddwyr a beicwyr fel rhan o'r cynigion priffyrdd a defnydd tir cwbl newydd gan gynnwys cynlluniau rheoli traffig.

4.4 Llwybrau i'r Dyfodol

Cynigir y cynlluniau canlynol fel ffyrdd o gyflawni amcanion y Cyngor mewn perthynas â beicio. Cânt eu datblygu a'u cwblhau wrth i arian ddod ar gael.


4.4.1 Coridor yr A5

Cynigir y llwybr fel modd o gysylltu cymunedau ar draws yr ynys mewn ffordd nad yw'n digwydd gyda llwybrau beicio cenedlaethol 5 ac 8 gan fod y rheiny'n defnyddio lonydd llai nad ydynt bob amser yn arwain drwy gymunedau mwy. Mae coridor yr A5 / A55 yn llinell a ffafrir ar gyfer symud ar draws yr ynys ac yn bwysig hefyd i ddarparu cyswllt a rennir i annog nid yn unig beicwyr sy'n teithio'n bell, a all fod yn defnyddio'r A5 neu'r A55 p'run bynnag, ond hefyd y rhai hynny sy'n teithio llai o filltiroedd rhwng y cymunedau, lleoedd gweithio neu ysgolion sydd wedi eu lleoli ar hyd y coridor. Bydd y cynllun yn ceisio cydymffurfio â'r angen i gael llwybrau teithio llesol a rhagor o feicio hamdden oddi ar y ffordd. Gyda llwybr beicio mwy diogel ar hyd y coridor hwn y gobaith yw y gellid perswadio pobl i beidio â beicio ar yr A55 ar draws Ynys Môn drwy gyflwyno rheoliadau i atal beiciau rhag cael eu cynnwys yn y rhestr o gerbydau a ganiateir ar y ffordd ddeuol brysur hon. Byddai hyn yn atal rhagor o farwolaethau yn sgil damweiniau beic ar yr A55 ar Ynys Môn.

Byddai hwn yn llwybr a rennir (cerdded a beicio) yn neilltuoel i'r defnydd hwn yn rhedeg wrth ochr neu'n agos i goridor yr A5 rhwng Porthaethwy a Chaergybi. Mae rhan o'r llwybr hwn eisoes wedi ei orffen rhwng Caergybi a'r Fali. Mae'r darn rhwng Caergybi a Chob y Fali bellach yn rhan o RhBC 5, a'r darn rhwng Cob y Fali a'r Fali yn rhan o RhBC 5 ac 8. Mae'r darn drwy Borthaethwy wedi ei gwblhau er awgrymir rhai gwelliannau mewn astudiaeth ddichonoldeb gan Ymgynghoriaeth Gwynedd (Tach. 2012). Mae'r darn rhwng y Fali a Chaergeiliog yn cael ei adeiladu ar hyn o bryd (2013/2014), er llwybr troed yn unig yw'r darn rhwng y Fali a Chyffordd 3 o'r A55 gan nad yw'n ddigon llydan o fewn y briffordd ar gyfer rhannu'r llwybr ac ar hyn o bryd mae ansicrwydd ynglŷn â'r hyn fydd yn digwydd yn y lleoliad hwn o gofio'r gwaith arfaethedig yn gysylltiedig â gwaith adeiladu gorsaf niwclear yr Wylfa. Bydd y rhan hon yn cael ei hailasesu ynghyd ag unrhyw waith ar y briffordd yn y dyfodol. Mae'r rhannau rhwng Llanfairpwll a Gaerwen, a'r cyswllt rhwng yr A5 a Llangefni yn cael eu dylunio ar hyn o bryd (2013/2014). Cwblhawyd astudiaeth ddichonoldeb ar hyd gweddill y llwybr. Rhagwelir y cwblheir y llwybr mewn cymalau dros nifer o flynyddoedd wrth i arian ddod ar gael.

Mae'r rhannau sy'n cael eu dylunio ar hyn o bryd (rhwng Llanfairpwll a Gaerwen, a'r cyswllt rhwng yr A5 a Llangefni) yn cysylltu'r cymunedau ar hyd y llwybr a hefyd yn cysylltu'r cymunedau ag ardaloedd menter, un yng Ngaerwen a thair yn Llangefni.


Cynigir y bydd y rhannau'n arwain drwy bentrefi yn rhai ar y ffordd.



Ffigur 10 – Llwybr Coridor yr A5

4.4.2 Coridor yr A5025


Gwelliannau beicio wrth ochr, neu'n agos i'r A5025 rhwng y Fali a Wylfa, a Wylfa ac Amlwch. Byddai'r gwaith adeiladu newydd posibl yn yr Wylfa yn galw am welliannau i'r A5025 rhwng y lleoliadau hyn sy'n golygu y byddai datblygwyr, dan Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, yn gorfod ystyried sut i wella'r ddarpariaeth ar gyfer cerddwyr a beicwyr. Byddai hyn yn gwella'r cysylltiadau hamdden â gogledd orllewin yr ynys.



Ffigur 11 – Llwybr Coridor yr A5025


4.4.3 Cysylltiadau ag Ardaloedd Menter / Prosiectau Mawr

Cyhoeddwyd Ardal Fenter Ynys Man ym mis Medi 2011 gyda'r nod o annog twf busnes a chyflogaeth yn y sector ynni ar yr Ynys. Mae cysylltiadau trafniadaeth i'r safleoedd hyn yn rhan o'r prosiect hwn gyda chysylltiadau beicio a cherdded atynt yn elfen bwysig. Bydd cynlluniau'r AS yn cysylltu â nifer o Ardaloedd Menter.



Ffigur 12 – Ardaloedd Menter

Mae'r rhan helaeth o'r prif brosiectau ar Ynys Môn yn dod dan faner Ynys Ynni a gyda'u hagenda carbon isel byddant yn cydweddu â'r dyheadau o annog rhagor o gerdded a beicio. Mae prosiectau fel y gwaith adeiladu niwclear newydd yn y Wylfa angen rhoi ystyriaeth i lwybrau cerdded a beicio i leihau'r nifer o geir ag un unigolyn yn teithio ynddynt i'r safle. Bydd unrhyw asesiadau traffig / trafndiaeth gan ddatblygwyr angen ymgorffori darpariaeth ar gyfer llwybrau beicio.



Ffigur 13 – Prosiectau Mawr

4.4.4 Rhwydwaith Beicio Twristiaid i'r Dyfodol

Cwblhawyd adroddiad dichonoldeb ym mis Medi 2013 a edrychodd ar “Wella Rhwydwaith Llwybrau Beicio ar y Ffordd ar Ynys Môn”. Awgrymodd yr astudiaeth rwydwaith posibl o lwybrau newydd yn ne'r ynys, sy'n defnyddio'r RhBC 8 presennol, un o'r llwybrau adar, RhBC 566(Lôn Las Cefni) a 28 milltir o lonydd bach sydd ag arwyddion newydd arnynt, i gysylltu â'r rhain. Fel yr awgrymwyd uchod bydd angen adolygu'r Llwybrau Adar yn unol â'r amcanion a osodir yn yr astudiaeth ddichonoldeb hon cyn penderfynu ar lwybrau newydd i roi arwyddion arnynt. Bydd unrhyw astudiaeth fydd yn edrych ar lwybrau newydd neu rai i'w hadolygu angen ystyried y cyrchfannau twristiaeth / hamdden y gallasai pobl ddymuno gael mynediad atynt ar feic gan gynnwys yr arfordir a'r AHNE.

4.4.5 A545 Porthaethwy i Fiwmares

Cwblhawyd gwaith dichonoldeb a dylunio ar gyfer llwybr cerdded a beicio ar hyd y coridor hwn ym mis Ebrill 2011. Daeth yr adroddiad i'r casgliad nad yw'r A545 yn cynnig cyfleusterau digonol ar gyfer cerdded a beicio ac y byddai'r cyfraddau cost (ym mis Mawrth 2011) o weithredu'r dewis a ffeirir

dros £9 miliwn. Mae'r gost hon yn golygu na fyddai unrhyw gynllun yn y lleoliad hwn yn debygol o gael ei ariannu er bod dyhead o hyd i wella'r llwybr ar gyfer cerddwyr a beicwyr rhyw dro yn y dyfodol.

4.4.6 Lein Amlwch

Roedd Lein Amlwch yn llinell reilffordd a agorwyd yn wreiddiol i holl draffig trenau yn 1867, Cafodd ei chau i draffig cludo teithwyr yn 1964 a thraffig nwyddau yn 1993. Ni ddefnyddiwyd y llinell ers hynny er bod y cletrau yno o hyd.


Ers 1993 bu nifer o gynigion i ailagor y llinell fel rheilffordd dreftadaeth, neu ei throsi'n llwybr beicio a cherdded neu'r posibilrwydd o fwy nag un defnydd. Cwblhawyd astudiaeth gan Sustrans yn 2008 a roddodd ystyriaeth i gymysg o gerdded, beicio a marchogaeth ynghyd â rheilffordd dreftadaeth ar ran o'r llwybr. Comisiynwyd yr astudiaeth hon gan Gyngor Sir Ynys Môn mewn ymateb i benderfyniad y Cyngor Sir ym mis Mawrth 2007 i ffafrio'r defnyddio'r llinell fel llwybr beicio, cerdded a llwybr ceffylau.

Yn 2009 comisiynwyd Network Rail gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynnal astudiaeth ddichonoldeb i ystyried y posibilrwydd o ailsefydlu darn 4 milltir o linell gangen Amlwch i hwyluso rhedeg trê'n i deithwyr rhwng Llangefni a Chyffordd Llandudno. I wasanaethau rheilffordd fedru dychwelyd i Langefni byddai angen ailgysylltu'r llinell gangen i Brif Linell Arfordir Gogledd Cymru yng Nghyffordd Gaerwen, ac adnewyddu'r llinell hon o'r pwynt hwn at ei diwedd yn Llangefni.

Ym mis Medi 2009 pleidleisiodd Pwyllgor Gweithredu'r Awdurdod o blaid cefnogi'r defnydd o'r llinell fel rheilffordd a chyfeirio'r mater i'r Cyngor Sir gan y byddai hyn angen gwyrdroi'r penderfyniad a gymerwyd gan y Cyngor Sir ym mis Mawrth 2007.

Y penderfyniad diweddaraf a wnaed ar y mater gan y Cyngor ar 14 Medi 2010 oedd

“ O ystyried datblygiadau diweddar, ac yn amodol ar ddim defnydd o arian y Cyngor, dewis cyntaf y Cyngor Sir ar gyfer defnydd llinell Gaerwen ac Amlwch i'r dyfodol fyddai i'w hailagor ar gyfer gwasanaethau rheilffordd, ac os bydd y fenter honno'n aflwyddiannus y dylai'r Cyngor droi i gefnogi'r penderfyniad a wnaed ar 6 Mawrth 2007 o ffafrio'r dewis o greu llwybr beicio, cerdded a llwybr ceffylau.



Ffigur 14 - Lein Amlwch

- Y dylid gofyn i'r Cwmni Rheilffordd gyflwyno Cynllun Busnes i'r Cyngor hwn er gwybodaeth, gan gynnwys amserlen waith o fewn 6 mis.”

Cwblhawyd astudiaeth Cyffordd Gaerwen i Langefni gan Network Rail ym mis Tachwedd 2010, ac er ei bod hi'n dechnegol bosibl i ailagor y rhan hon o'r llinell gangen, cyfrifwyd y gost o wneud hynny'n £25.1m. Tra canolbwyntiodd yr astudiaeth ar y rhan o Gyffordd Gaerwen i Langefni, ac nid y rhan i'r gogledd o Langefni, cydnabuwyd petai'r rhan o Gyffordd Gaerwen i Langefni yn cael ei hailagor fel rhan o'r rhwydwaith rheilffordd cenedlaethol, byddai hyn yn cynyddu'r posibilrwydd o agor y rhan o Langefni i Amlwch fel rheilffordd dreftadaeth.

Ym mis Awst 2011 rhoddwyd trwydded i Anglesey Central Railway i glirio llystyfiant, gwneud gwaith traenio a chynnal arolygon i ymchwilio a pharatoi ar gyfer adnewyddu'r cledrau. Wrth edrych yn ddiweddar ar rannau o'r llinell i'r gogledd o Langefni sydd i'w gweld o'r briffordd, gwelir mai prin iawn, os o gwbl, fu'r gwaith clirio hyd yma.

Ers penderfyniad Pwyllgor Gweithredol y Cyngor ym mis Medi 2009, ar wahân i gyhoeddi'r astudiaeth ddichonoldeb, bu dim cynnydd wrth yrru'r prosiect yn ei flaen i ailagor y rhan o Gyffordd Gaerwen i Langefni, na chynhyrchu cynllun busnes ar gyfer y rhan o Langefni i Amlwch.

4.4.7 Gwelliannau Lôn Las Cefni

Cafodd wyneb Lôn Las Cefni ei uwchraddio yn ystod y blynyddoedd diweddar (201-2013) rhwng Nant y Pandy i'r gogledd o Langefni a Phont Marcwis i'r gogledd o Falltraeth. Mae posibilrwydd uwchraddio rhan o'r llwybr rhwng Nant y Pandy a Llyn Cefni.

4.4.8 Llwybr cylchol o amgylch Llyn Cefni

Mae'r cynllun posibl hwn yn cysylltu â'r llwybr presennol (Lôn Las Cefni) ar ochr de ddwyrain y gronfa ddŵr, a byddai'n darparu llwybr ar yr ochr gogledd orllewinol gan greu llwybr cylchol.

4.4.9 Beicio Mynydd

Mae Beicio Mynydd yn weithgaredd hamdden sy'n dod yn fwy poblogaidd ymysg ystod eang o oedran. Mae posibilrwydd datblygu rhagor o lwybrau beicio mynydd ar Ynys Môn os daw arian. Byddai hyn yn cysylltu â deilliannau iechyd yn ogystal â thwristiaeth a'r CRHC.

4.4.10. Benllech i Langefni

Mae hwn yn gynllun a fyddai'n defnyddio llwybr rheilffordd segur i greu llwybr a rennir rhwng Benllech a Langefni. Mae gwely'r trac hwn ym mherchnogaeth nifer o berchnogion tir ar hyn o bryd ac felly byddai'r cynllun yn anodd ei wireddu. Serch hynny byddai angen cwblhau astudiaeth ddichonoldeb i graffu'r posibilrwydd o ddatblygu cynllun.

4.4.11 Astudiaeth llwybr beicio teithio llesol


Fel rhan o'r angen i gydymffurfio â Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 – byddai angen astudiaeth o ganolfannau poblogaeth / canolfannau cyflogaeth / ysgolion / cyfnewidfeydd trafndiaeth / manwerthu / iechyd, i ganfod y lleoliadau gorau ar gyfer llwybrau beicio a cherdded newydd / i'w hadnewyddu.

4.4.12. Cynlluniau Llwybrau Diogel mewn Cymunedau

Bydd Cynlluniau Llwybrau Diogel mewn Cymunedau yn rai parhaus yn unol â'r canllaw a gynhrychir bob blwyddyn gan Lywodraeth Cymru.

4.4.13 Rhwydwaith y Dyfodol a Gynigir

Bydd y Cyngor yn ceisio datblygu cynlluniau oddi ar y ffordd newydd i ddarparu cysylltiadau i nifer o rannau o ardaloedd mewnol ac arfordirol yr ynys. Wrth i lwybrau ffyrdd gael eu hadolygu a'u diwygio cânt eu newid ar y cynllun rhwydwaith. Gall rhai llwybrau ffyrdd presennol gael eu symleiddio wrth i lwybrau oddi ar y ffordd newydd gael eu hadeiladu gan ddbynnu ar y defnydd a ddyluniwyd ar eu cyfer.



Ffigur 15 – Rhwydwaith Arfaethedig

4.5 Arwyddion

Dylai arwyddion fod yn glir ac yn gyson ar hyd yr holl brif lwybrau beicio / rhai a rennir. Diffinnir llwybr mawr ar y ffordd fel llwybr rhwydwaith beicio cenedlaethol neu lwybrau cylchol penodol lle cafwyd cymeradwyaeth gan y Gwasanaeth Priffyrdd gan fod yr arwyddion hyn yn effeithio ar gyllideb cynnal a chadw'r gwasanaeth hwnnw.

Adolygu arwyddion ar lwybrau presennol:

- Mae angen cynnal arolwg o lwybrau adar Menter Môn a phenderfynu a ddylai'r llwybrau barhau fel ag y maent, a ddylid newid y llinell, neu a ddylid cael gwared arnynt. Rhaid i arwyddion gydfynd ag unrhyw lwybrau a adolygir. Gan fod rhai o'r arwyddion ar y llwybrau presennol wedi diflannu, mewn cyflwr gwael neu'n arwain pobl i'r cyfeiriad anghywir, mae cyfle i adolygu'r llwybrau. Dylid eu hasesu ar sail diogelwch ac a ydynt yn parhau i ddilyn y llwybrau y mae pobl yn dymuno eu defnyddio ac yn parhau i gysylltu â chyrchfannau priodol. Dylid eu hadolygu yn unol â'r amcanion a osodir yn yr astudiaeth ddichonoldeb "Gwella Rhwydwaith Llwybr Beicio oddi ar y ffordd Ynys Môn" a drafodir isod. Yn y cyfamser mae Menter Môn am adnewyddu arwyddion colledig er mwyn i'r llwybrau fod yn weithredol unwaith eto ar gyfer y ddau dymor nesaf – 2014 a 2015. Ni ddylid gweithio ar lwybrau hamdden newydd hyd nes i'r broses adolygu gael ei chwblhau, yn enwedig unrhyw waith arwyddion ymarferol.
- Adolygu hen lwybrau – tynnu hen arwyddion i lawr (e.e. hen linell Caergybi RhBC 8)

Holl arwyddion a marcio cyfleusterau beicio i ystyried amgylchedd y safle.

Bydd rhoi arwyddion ar lwybrau'n osgoi blerwch ac, yn enwedig ar gyfer llwybrau twristiaeth, wedi eu cysylltu â llwybrau lle mae'r brandio'n gryf ac adnabyddus.

4.6 Cynnal a Chadw

Mae cyllidebau cynnal a chadw'n cael eu cwtogi ar hyn o bryd ac nid yw'r sefyllfa hon yn debygol o newid dros y blynyddoedd nesaf. Rhaid gwneud pob ymdrech i sicrhau na fydd y cyllidebau hyn yn cael eu cloffi wrth barhau i fwynhau safon dda o lwybr beiciau.

Llwybrau a Rennir

- Dylid adeiladu unrhyw asedau i'r safon orau bosibl o fewn cyllidebau er mwyn atal yr angen i wneud unrhyw waith cynnal a chadw ar wyneb y llwybr am rai blynyddoedd.
- Dylid cwblhau gwelliannau neu waith uwchraddio o'r rhwydwaith presennol pan fydd cyllidebau'n caniatáu hynny, er mwyn atal yr angen i wneud unrhyw waith cynnal a chadw ar gorff y llwybr am rai blynyddoedd.
- Dylid cynllunio pob cynllun newydd yn ofalus er mwyn lleihau atebolrwydd cynnal a chadw. Dylid osgoi unrhyw elfen ddiangen mewn cynllun.
- Yn y dyfodol gellir ystyried gwaith cynnal a chadw a drefnir gan Gyngorau Cymunedol ar gyfer llwybrau oddi ar y ffordd yn yr un modd ag y mae hawliau tramwy cyhoeddus yn cael eu cynnal ar hyn o bryd.
- Bydd llwybrau a rennir o fewn ffin y briffordd yn cael eu cynnal fel rhan o'r briffordd o fewn y gyllideb sydd ar gael.
- Ni does ystyriaeth wedi ei rhoi et oar gyfer graeanu llwybrau beicio yn y gaeaf. Byddai rhwymedigaethau adnoddau ac ariannol sylweddol i ymrwymiad o'r fath.

Llwybrau ar y Ffordd

- Dylai llwybrau sydd ag arwyddion yn datgan eu bod yn llwybrau beicio ar y ffordd fod mewn cyflwr da os yn bosibl cyn gosod unrhyw arwyddion.
- Bydd trefniadau cynnal a chadw ar gyfer y llwybrau hyn yn dilyn yr hierchiaeth gynnal a chadw ar gyfer priffyrdd Sirol.

4.7 Safonau

Yn gyffredinol adeiladir unrhyw llwybrau newydd a rennir ar led o 2.5 metr o leiaf gyda llain ymylol o 1 metr lle bydd y llwybr wrth ymyl priffordd a lled o fetr at unrhyw wal neu ffens. Gellir llacio ychydig ar y mesuriadau hyn mewn manau cul dros bellter byr.

Bydd y Cyngor yn adeiladu llwybrau a rennir yn hytrach na llwybrau ar wahân oni bai y ceir lleoliad sy'n addas ar gyfer hynny, bod digon o dir, ac y byddai llwybr ar wahân yn ddymunol yno. Bydd palmant botymog ar gyfer llwybrau beicio ond yn cael ei ddefnyddio mewn lleoliadau addas yn ôl yr angen.

Rhodddwyd addewid y ceir canllaw ar safonau ar gyfer darpariaeth feicio fel rhan o Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013. Mae ystod o ffynonellau eraill o wybodaeth ar safonau.

- Canllawiau a nodiadau gwybodaeth dechnegol
- Adran Drafnidiaeth:
 - Nodyn Trafnidiaeth Leol 1/12 – Llwybrau a Rennir ar gyfer Cerddwyr a Beicwyr
 - Nodyn Trafnidiaeth Leol 2/08 – Dyluniad Seilwaith Beicio
- Dyluniad Seilwaith Beicio Caerdydd (2011)
- Trafnidiaeth ar gyfer Llundain – Safonau Dyluniad Beicio Llundain (2005)
- Llawlyfr Strydoedd a Llawlyfr Strydoedd 2

Ceir rhestr gynhwysfawr o ddogfennau ar wefan Sustrans (Atodiad 2):

<http://www.sustrans.org.uk/our-services/infrastructure/route-design-resources/documents-and-drawings/key-reference-documents>

4.8 Parcio Beiciau

Darperir canllawiau ar safonau ar faterion beicio fel rhan o Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 a ddylai gynnwys safonau ar barcio beiciau. Glynir wrth y rhain wrth ystyried lleoliadau parcio.

Mae'r lleoliadau y dylid eu hystyried ar gyfer parcio'n cynnwys:

- datblygiadau newydd
- sefydliadau addysgiadol
- cyfnewidfeydd trafndiaeth
- cyfleusterau hamdden
- canolfannau manwerthu
- lleoedd gwaith
- canol trefi a phentrefi
- mentrau twristiaeth

- swyddfeydd y Cyngor

Bydd adolygiad o'r lleoliadau parcio beiciau sydd ar gael ar hyn o bryd yn cael ei gynnal. Yn dilyn adolygiad o'r parcio beiciau sydd ar gael ar hyn o bryd, drafftir rhestr flaenoriaeth o'r lleoliadau ble y dylid annog parcio beiciau wrth i arian ddod ar gael.

4.9 Hyrwyddo beicio

Mae gwefan Croeso Môn yn cael ei diweddarau ar hyn o bryd (2013/14) ac wedi hynny bydd yn cael ei chadw'n gyfredol ag unrhyw welliannau neu newidiadau i'r ddarpariaeth feicio ar yr ynys.

Trefnir digwyddiadau er mwyn hyrwyddo beicio megis y Tour de Môn llwyddiannus ym mis Medi 2013. Cynhelir gŵyl Awyr Agored Ynys Môn ym mis Mai bob blwyddyn fel arfer gan hyrwyddo teithiau beiciau yn ogystal â theithiau cerdded poblogaidd.

Bydd mapiau a gynhyrchir fel elfen ofynnol o Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn hyrwyddo beicio fel ffordd o deithio ar yr ynys.

Dylai marchnata gynnwys brandio cryf, adnabyddus a chyson o'r llwybrau a'r rhwydweithiau. Dyma'r llwybrau a hyrwyddir gan Croeso Môn a thrwy'r gwaith mapio ar gyfer Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 ble bo'n briodol.

Mae cynlluniau fel Grant Teithio Cynaliadwy Taith yn annog cyflogwyr i hyrwyddo beicio drwy ddarparu grantiau bach i wella'r ddarpariaeth o feicio yn y gweithle.

4.10 Monitro

Mae'r Cyngor eisoes yn defnyddio offer monitro ar gyfer Llwybr yr Arfordir a chyfleusterau sy'n berchen i'r Cyngor megis Parc Gwledig Morglawdd Caergybi a Gwarchodfa Natur Nant y Pandy. Defnyddir offer tebyg i fonitro llwybrau oddi ar y ffordd a rennir er mwyn sicrhau bod y feddalwedd yn cydweddu ac y gall y data gael ei gysodi ar draws gwasanaethau'r Cyngor.

4.11 Marchogwyr

Mae marchogwyr yn awyddus hefyd i gael mynediad at ragor o lwybrau oddi ar y ffordd, ond mae rhannu llwybrau ag eraill yn codi pryderon ymysg yr holl ddefnyddwyr.

Diben nifer o'r llwybrau a rennir a gynigir fel rhan o'r strategaeth hon yw rhoi cymorth tuag at gynyddu'r nifer o deithiau llesol i'r gwaith / ysgol ac ati, a cheir pryderon gan feicwyr, defnyddwyr llai abl a'r rhai gyda phlant ifanc ynglŷn â rhannu llwybrau gyda cheffylau (Ceffylau ar y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol : Nodyn Gwybodaeth Technegol Rhif 28 – Sustrans 2011). Nid yw'r Cyngor yn dymuno gweld y prif ddefnyddiwr o'r llwybrau a dargedir yn cael eu rhwystro rhag eu defnyddio.

Lle ceir digon o le ac arian ar gael i farchogwyr fedru eu defnyddio yna gellid darparu llwybr cheffylau ar wahân ar rai cynlluniau wrth ochr llwybr a rennir rhwng cerddwyr a beicwyr ond byddai hyn yn annhebygol o ddigwydd ar bob cynllun.

Disgwylir am ganllaw i Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 gan Lywodraeth Cymru a all ychwanegu rhywbeth defnyddiol i'r mater hwn.

4.12 Ariannu

Gall arian ar gyfer cynlluniau ddod o nifer o ffynonellau. Gellid ariannu cynlluniau drwy'r canlynol (nid yw'n rhestr gyflawn):

Taith – Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol

Menter Tair Tref

Ymweld â Môn

Datblygwyr

Llwybrau Diogel mewn Cymunedau

Atodiad 1 : Cyd-destun Polisi

Adolygiad o'r dogfennau polisi hyd yma sy'n dylanwadu ar feicio ar Ynys Môn

A1.1 Cenedlaethol

A1.1.1 Strategaeth Drafnidiaeth Cymru

Mae Strategaeth Drafnidiaeth Cymru (2008) WTS yn cynnig strategaeth drosfwaol ar gyfer holl drafnidiaeth Cymru gan gynnwys beicio a theithio cynaliadwy. Dan y WTS daw'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol a'r 4 consortia o Gynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol.

Amlygodd y WTS 5 blaenoriaeth strategol gan gynnwys:

- Lleihau allyriadau nwyon effaith tŷ gwydr ac effeithiau amgylcheddol eraill gan drafnidiaeth
- Integreiddio trafndiaeth leol
- Gwell mynediad rhwng aneddiadau a safleoedd allweddol
- Gwella diogelwch

Mae'r gweithrediadau allweddol yn sgil yr uchod yn cynnwys:

- Newid moddol at drafnidiaeth gyhoeddus, parcio a theithio, cerdded a beicio. Darparu rhagor o seilwaith i gefnogi'r newid hwnnw. Addysg a hyrwyddo moddau amgen.

A1.1.2 Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol (CTC)

Dan y WTS daw'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol a dyma'r modd y mae Llywodraeth Cymru'n cyflawni rhan o'r WTS sy'n gyfrifoldeb arnyn nhw.

Cyhoeddwyd yr CTC a flaenoriaethwyd yn 2011 ac ynddo ceir ymrwymadau parhaus mewn perthynas â beicio ar Ynys Môn:

- Symleiddio'r ethos ar gyfer cyflawni mentrau cerdded a beicio i wneud y mwyaf o'n buddsoddiad. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau bod ein Bil Priffyrdd a Thrafnidiaeth (a ddaeth i rym mewn deddfwriaeth yn ddiweddarach fel y Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013) a bod yr holl fuddsoddiad ar gerdded a beicio'n canolbwyntio ar gyflawni agenda'r Llywodraeth:
- Datblygu nifer uwch o lwybrau cerdded a beicio heb draffig a llwybrau trafndiaeth gyhoeddus ar wahân (cyfeirnod CTC 8).
- Cynnal ein rhaglen Llwybrau Diogel mewn Cymunedau i ddatblygu cyfleoedd cerdded a beicio mwy diogel (cyfeirnod CTC 9).
- Cyflawni targedau ein Cynllun Gweithredu Cerdded a Beicio (cyfeirnod CTC 11), gydag arian ychwanegol i'w ryddhau ar gyfer hyn.
- Parhau i gynyddu'r swm o arian sydd ar gael ar gyfer cynlluniau cerdded a beicio (cyfeirnod CTC 12), drwy ganolbwyntio ar ariannu canolfannau teithio cynaliadwy a'n rhaglen Llwybrau diogel mewn cymunedau.
- Gweithio gyda rhanddeiliaid, adolygu'r dewisiadau i gynyddu capasiti'r A55 ar draws y Fenai, gan gynnwys capasiti ar gyfer cerddwyr a beicwyr (cyfeirnod CTC 93).

A1.1.3 Polisi Cynllunio i Gymru – Nodyn Cyngor Technegol 18: Trafnidiaeth (2007)

Mae gan y ddogfen gynllunio hon adran ar feicio.

- **6.3** Gallai beicio gymryd lle teithiau car byrrach mewn ardaloedd trefol neu wledig, neu gallai fod yn rhan o daith hwy pan y'i cyfunir â thrafnidiaeth gyhoeddus.
- **6.4** Dylai awdurdodau lleol geisio datblygu rhwydwaith effeithiol o lwybrau beicio, gan gynnwys llwybrau diogel i'r ysgol. Dylai cynlluniau datblygu, canllawiau dylunio, a phrif gynlluniau hyrwyddo beicio drwy:
 - nodi llwybrau beicio newydd gan ddefnyddio priffyrdd sy'n bodoli eisoes (gan gynnwys hawliau tramwy pan fo hynny'n briodol), llinellau rheilffordd segur, lle wrth ochr glannau afonydd a chamlesi, parciau a mannau agored;
 - sicrhau bod datblygiadau newydd yn hyrwyddo beicio trwy ystyried yn ofalus lleoliad, gwaith dylunio, trefniadau mynediad, llinellau teithio a ddymunir trwy ddatblygiad, a thrwy integreiddio â chysylltiadau oddi ar y safle sy'n bodoli eisoes a chysylltiadau oddi ar y safle posibl;
 - sicrhau y darperir lleoedd parcio beiciau diogel a chyfleusterau newid ym mhob datblygiad cyflogaeth pwysig, gan gynnwys defnydd manwerthu a defnydd hamdden, canol trefi, cyfnewidfeydd trafndiaeth, sefydliadau addysgol a sefydliadau iechyd;
 - sicrhau y darperir llwybrau seiclo a mesurau blaenoriaeth ym mhob datblygiad pwysig;
 - mabwysiadu isafswm safonau parcio beiciau o fewn eu strategaethau parcio – yn achos eiddo masnachol dylai'r safonau hyn gynnwys lleoedd parcio beiciau ar gyfer cyflogeion ac ymwelwyr;
 - sicrhau bod datblygiadau preswyl newydd yn darparu storffeydd ar gyfer beiciau fel eu bod ar gael yn hawdd ar gyfer defnydd bob dydd ond yn ddigon diogel fel y gellir eu gadael heb neb i ofalu amdanynt am gyfnodau hir o amser.

A1.1.4 Cynllun Gweithredu ar Deithio Llesol i Gymru 2009-2013

Mae'r ddogfen hon yn anelu at wneud y mwyaf o'r cyfleoedd a gynigir gan gerdded a beicio ac i leihau'r defnydd o geir. Mae'n adnabod bod y ddarpariaeth o adnoddau cerdded a beicio yn elfen bwysig wrth greu cyfleoedd cyfartal.

Amcanion creiddiol y cynllun yw i:

- gwella iechyd a lles pobl Cymru drwy eu hannog i wneud rhagor o weithgarwch corfforol
- gwella'r amgylchedd lleol ar gyfer cerddwyr a beicwyr
- hybu dulliau teithio cynaliadwy er mwyn mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd
- annog rhagor o bobl i gerdded a beicio
- sicrhau rhagor o flaenoriaeth i gerdded a beicio mewn polisïau, canllawiau ac o safbwynt cyllid.

A1.1.5 Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013

“Mae Bil Teithio Llesol (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wella cyfleusterau a llwybrau i gerddwyr a beicwyr yn barhaus, a pharatoi mapiau sy'n nodi'r llwybrau presennol a'r llwybrau posibl y gallant eu defnyddio yn y dyfodol. Bydd y Bil hefyd yn nodi bod angen i gynlluniau ffyrdd newydd ystyried anghenion cerddwyr a beicwyr yn eu camau dylunio.” (Sylw a gymerwyd o wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru.) Derbyniodd y Ddeddf Gydsyniad Brenhinol ar 4 Tachwedd 2013.

A1.1.6 Grŵp Hollbleidiol Seneddol ar Feicio y DU – Ymchwiliad “Get Britain Cycling” (2013)

Mae'r Grŵp Hollbleidiol Seneddol ar Feicio y DU wedi cynnal ymchwiliad o'r enw “Get Britain Cycling” gyda'r nod o “alluogi rhagor o bobl ledled y DU i ddechrau beicio, beicio'n amlach a beicio'n fwy diogel, drwy gyfnewid neu dderbyn tystiolaeth gan dyst arbenigol ar y rhwystrau sydd yn rhaid eu goresgyn a chynnig mesurau cadarn ac effeithiol i'w cymryd gan lywodraeth ganolog a lleol yn ogystal â'r byd busnes yn ei gyfanrwydd a'r trydydd sector.”

A1.2 Rhanbarthol

A1.2.1 Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (2009)

Cyhoeddwyd y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (CTRh) gan Taith, Consortia o'r 6 Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru. Mae'n ymdrin â'r cyfnod 2010 – 2015 ac yn cyflawni'r rhan o'r CTC sydd yn gyfrifoldeb yr Awdurdodau Lleol.

Amcanion o fewn y cynllun yn ymwneud â materion beicio:

- cynnig y mynediad gorau posibl at gyflogaeth, addysg, iechyd a gwasanaethau ar gyfer holl gymunedau Gogledd Cymru
- darparu, hyrwyddo a gwella mathau cynaliadwy o drafnidiaeth a seilwaith i leihau effaith negyddol trafnidiaeth ar yr amgylchedd lleol a byd-eang
- gwella diogelwch ym mhob math o drafnidiaeth
- gwella effeithlonrwydd y rhwydwaith trafnidiaeth a'i ddefnydd ohono
- gwella a chynnal y seilwaith trafnidiaeth, gan adnewyddu yn ôl yr angen

Blaenoriaethau'r CTRh mewn perthynas â beicio:

- Lleihau tagfeydd a chyfnod amser teithiau
- Cefnogi datblygiad
- Rhwydweithiau diogel, effeithlon a chynaliadwy – cynnal rhwydweithiau trafnidiaeth diogel, effeithlon a mwy cynaliadwy
- Trafnidiaeth gynaliadwy – cynyddu'r lefelau presennol o feicio a cherdded gan bobl leol ac ymwelwyr

A1.2.2 Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru: Strategaeth Gerdded a Beicio Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru: Strategaeth Gerdded a Beicio. Cwblhawyd strategaeth gerdded a beicio rhanbarthol fel rhan o'r broses CTRh. Ei nod yw i “annog rhagor o bobl i gerdded neu feicio eu taith, megis mynd i'r gwaith neu i'r ysgol, am dro i'r siop leol, cyfleusterau hamdden ac iechyd ac ar gyfer gweithgareddau hamdden.”

Adnabuwyd Egwyddorion Arweiniol mewn perthynas â beicio fel rhan o'r strategaeth :

- Newid Hinsawdd: Annog newid moddol i fathau iachach o drafnidiaeth i gyfrannu at dargedau newid hinsawdd a lleihau allyriadau CO2
- Rhwydweithiau a Chyfleusterau Beicio Sylweddol: Datblygu rhwydweithiau o safon uchel sy'n cael eu cynnal, sy'n hwyluso'r galw presennol a'r dyfodol ar gyfer beicio lleol a thrawsffiniol.
- Integreiddio Cerdded a Beicio mewn Strategaethau Defnydd Tir a Thrafnidiaeth: Sicrhau bod cerdded a beicio bob amser yn cael eu hystyried mewn prosesau cynllunio trafndiaeth a defnydd tir.
- Integreiddio Mathau o Drafnidiaeth: Sicrhau bod cerdded a beicio yn cael eu hintegreiddio'n ddiogel o fewn mathau eraill o drafnidiaeth.
- Gweithio a Chyfathrebu mewn Partneriaeth yn Rhanbarthol: Datblygu a chryfhau gweithio mewn partneriaeth, hyrwyddo ac annog y defnydd o fathau cynaliadwy o deithio ar draws y rhanbarth i awdurdodau cyfagos ac yn ôl gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol gan gynnwys sefydliadau gwirfoddol.
- Addysg, Hyrwyddo a Chyhoeddusrwydd: Datblygu a chefnogi ymgyrchoedd a mentrau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol wedi'u hanelu at hyrwyddo mathau mwy cynaliadwy o drafnidiaeth a chodi'r lefelau o ymarfer corff.
- Monitro: Gwerthuso effaith mentrau trafndiaeth gynaliadwy gan ddefnyddio'r canlyniadau i ddylanwadu ar ddatblygiad polisi, gweithred ac ymgeisio am arian i'r dyfodol.

Strategaethau i yrru'r rhain yn eu blaenau yn cynnwys:

- Annog beicio fel math o drafnidiaeth yng Ngogledd Cymru
- Newid meddylfryd pobl ynglŷn â thrafnidiaeth
- Gweithredu ar fentrau trafndiaeth gynaliadwy yn awr yn hytrach na disgwyl
- Rheoli'r rhwydwaith trafndiaeth gynaliadwy

Gweithrediadau'n gysylltiedig â'r egwyddorion a'r strategaethau'n cynnwys:

- Adnabod a chael gwared â gwir rwystrau beicio a'r rhai a dybir.
- Datblygu rhaglen o lwybrau diogel mewn cynlluniau cymunedol yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru.
- Sicrhau bod safonau ac arfer dda yn parhau i gael eu mabwysiadu a'u rhoi ar waith wrth ddarparu seilwaith beicio.
- Fel rhan o'r strategaethau gweithredu trafndiaeth leol, i adnabod a chynhyrchu rhaglen waith i ddatblygu'r rhwydwaith beicio lleol. Rhaid i bob awdurdod ystyried anghenion symudiadau lleol yn ogystal â bodloni teithiau trawsffiniol.
- Cynyddu'r lefel o feicio drwy ddarparu a gwella arwyddion priodol.
- Cysylltu â darparwyr trafndiaeth i sicrhau bod y capasiti cludo beiciau a chyfleusterau priodol yn cael eu darparu ar wasanaethau trafndiaeth i deithwyr.
- Sicrhau'r ddarpariaeth o gyfleusterau parcio diogel mewn cyfnewidfeydd trafndiaeth allweddol ac mewn lleoliadau yng nghanol trefi sydd mewn perchnogaeth gyhoeddus yn ogystal ag annog y ddarpariaeth hon mewn gweithleoedd mawr a chanolfannau twristiaeth.

A1.3 Lleol

A1.3.1 Polisi Cynllunio

Mae Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a stopiwyd (CDU) (2005) yn cefnogi'r cynigion sydd yn annog y defnydd, mwynhad a datblygiad llwybrau beicio dynodedig yr Ynys. Bydd datblygiadau newydd a fydd yn cael effaith ddinistriol ar rannau o'r rhwydwaith yn gorfod darparu'n foddhaol ar gyfer newid cwrs y llwybr, ei adfer neu greu llwybr newydd (Polisi TR9).

A1.3.2 Strategaeth Feicio Ynys Môn (2000)

Fe'i cynhyrchwyd yn ofynnol gan Gynulliad Cymru law yn llaw â'r cynllun Trafnidiaeth Lleol 2000. Mae gan y strategaeth hon nifer o amcanion a pholisïau.

- I annog beicio er mwyn lleihau'r defnydd o geir preifat.
- I sicrhau mynediad cyfleus ar feic i gyrchfannau allweddol
- I ddarparu cyfleusterau beicio a fydd yn gwneud beicio'n fwy cyfleus a diogel
- I godi ymwybyddiaeth am feicio ymysg defnyddwyr y ffordd yn gyffredinol
- I annog beicio ymysg plant ysgol
- I hyrwyddo sgiliau beicio er mwyn gwella diogelwch personol

A1.3.3 Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (2008 - 2018) (CGHTC)

Er mai hawliau tramwy yw prif ffocws yr CGHTC, mae'n rhoi ystyriaeth i faterion beicio hefyd. Yn 2008 pan ysgrifennwyd y wybodaeth, Lôn Las Cefni oedd yr unig lwybr beicio oddi ar y ffordd a oedd yn cyrraedd 26.3km. Mae'r adroddiad yn parhau gan ddweud "Mae'r llwybr yn cynnig taith feic ddymunol iawn i'r teulu, ond braidd yn fyr i fedru darparu beicio oddi ar y ffordd diogel drwy'r dydd."

Dan "welliannau i'r rhwydwaith" y datganiad gweithredol ar gyfer beicio yw:

- Cynnal ymarferiad cwmpasu i ganfod y posibilrwydd o greu llwybrau beicio newydd oddi ar y ffordd. Y nod fyddai gwella cyfleusterau er mwynhad cefn gwlad Ynys Môn ar lwybrau beicio cyhoeddus hygyrch.

A1.3.4 Cynllun Rheoli Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Ynys Môn (AHNE) 2009 – 2014

Mae gan Gynllun Rheoli'r AHNE bolisïau sy'n ymwneud â thrafnidiaeth dan ei Strategaeth ar gyfer Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Ynys Môn.

Thema 3: Ymweld â'r AHNE a'i Mwynhau (YM)

YM 4 MYNEDIAD

- YM 4.1 Hyrwyddo mynediad i bawb (lle mae hynny'n briodol), gan amddiffyn rhinweddau arbennig yr AHNE a chymeriad cyflawn safleoedd Ewropeaidd yr un pryd.
- YM 4.2 Rheoli'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus gyda safonau uchel o gynnal a chadw ac atgyweirio, gwybodaeth briodol ac arwyddion clir sy'n cadw a gwella rhinweddau arbennig yr AHNE a chymeriad cyflawn safleoedd Ewropeaidd.
- YM 4.3 Sicrhau bod dull cydgyssylltiedig o reoli a hyrwyddo mynediad cyhoeddus a gweithgareddau hamdden tawel eraill yn briodol i sicrhau mynediad i bawb.

Thema 4: Tirwedd Fyw a Gweithredol (TFG)

TFG 6 TRAFNIDIAETH

- TFG 6.1 Hyrwyddo integreiddio a defnyddio systemau trafndiaeth gyhoeddus fwy cynaliadwy fel rhan o ddull gweithredu aml-foddol yn yr AHNE.
- TFG 6.2 Hyrwyddo integreiddio a defnyddio systemau trafndiaeth gyhoeddus fwy cynaliadwy fel rhan o ddull gweithredu aml-foddol yn yr AHNE.
- TFG 6.3 Hyrwyddo'r AHNE fel model o safonau uchel o ddylunio ar gynlluniau priffyrdd, seilwaith a thirweddau cysylltiol sy'n ategu rhinweddau arbennig yr AHNE.

A1.3.5 Astudiaeth Drafnidiaeth Ynys Môn ar gyfer Datblygiadau Mawr (2011)

Yn 2011 comisiynwyd ymgynghorwyr i ddatblygu strategaeth drafnidiaeth ar gyfer yr Ynys i ymdrin ag effaith debygol datblygiadau mawr, gan gynnwys yr effaith ar gerdded a beicio. Ar y pryd mapiwyd y rhwydwaith beicio sylfaenol.

Mae Amcan 5 Cynllunio Trafnidiaeth fel a ganlyn:

“I ddarparu, hyrwyddo a gwella mathau cynaliadwy o drafnidiaeth a seilwaith yn gysylltiedig â datblygiad mawr posibl ar safleoedd ar Ynys Môn”.

Mae'r strategaeth yn datgan y bydd gweithwyr ac ymwelwyr i safle mawr yn cael eu hannog i ddefnyddio mathau cynaliadwy o drafnidiaeth. Mae hyn yn cynnwys ehangu ar y rhwydwaith presennol o lwybrau cerdded a beicio “i ddarparu cysylltiadau â safleoedd datblygu mawr o ardaloedd preswyl cyfagos, cyfnewidfeydd trafndiaeth gyhoeddus a gwrsylloedd adeiladu neilltuol. Bydd y llwybrau hyn yn cael eu gwella drwy'r ddarpariaeth o strategaeth arwyddion a mapio ar gyfer cerddwyr a beicwyr.”

A1.3.6 Cynllun Rheoli Cyrchfan (2012 - 2016) (CRHC)

O fewn CRHC Ynys Môn mae rhan 3.3.3 yn trafod datblygiad y rhwydwaith beicio.

“...rhaid cael rhwydwaith clir o lwybrau beicio gan gynnwys:

- Y llwybrau cenedlaethol ar draws yr ynys a llwybr treftadaeth arfaethedig yr A5
- Llwybr arfordirol
